
# Strategaeth Hybiau a Llyfrgelloedd


# 2019-2023











UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

CARDIFF
CAERDYDD

This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Prif Ffigurau Perfformiad | 4 |
| Arolwg Defnyddwyr Hybiau a Llyfrgelloedd | 5 |
| Crynodeb o'r Camau Gweithredu Allweddol | 6 |
| Ein Hybiau | 10 |
| Ein Gwasanaeth Llyfrgelloedd | 18 |
| Cynnig Llenyddiaeth ac Adnoddau Eraill | 21 |
| Annog Darllen | 24 |
| Cefnogi Ein Plant a'n Pobl Ifanc | 26 |
| Cynnig Gwybodaeth a Chyngor | 31 |
| Helpu Pobl i Gael Gwaith ac Annog Dysgu | 35 |
| Hyrwyddo Iechyd a Llesiant | 40 |
| Dwyn Cymunedau Ynghyd | 47 |
| Dathlu Ein Treftadaeth a'n Diwylliant | 51 |
| Mynediad i Bawb | 54 |
| Cyd-destun Strategol a Gofynion Rheoliadol | 57 |







# Foreword



***Y Cynghorydd Lynda Thorne***
**Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau.**

Mae'n bleser gen i rannu Strategaeth Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd ar adeg gyffrous i'n gwasanaethau ar draws y ddinas.


Rwy'n hynod falch o'n gwasanaethau Hybiau a Llyfrgelloedd. Mae datblygu ein canolfannau newydd a bywiog ar draws y ddinas wedi gwella ac ehangu ein gwasanaethau lleol pan fo llawer o gynghorau yn lleihau eu cynnig. Ein gwasanaethau llyfrgelloedd yw'r rhai gorau yng Nghymru ar draws ystod o ddangosyddion, gan gynnwys ymweliadau corfforol a rhithwir, benthycwyr gweithredol a gwirfoddolwyr.

Er bod economi ein dinas yn ffynnu, nid yw pob un yn rhannu'r ffyniant hwn. Mae ein Hybiau wedi bod yn allweddol wrth helpu i liniaru effeithiau negyddol cyni, gan gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt drwy ddarparu cyngor o ansawdd uchel a chymorth i ddod o hyd i waith a helpu i sicrhau bod twf y ddinas mor gynhwysol â phosibl.

Fel y gŵyr pob un ohonom, mae cefnogi aelodau hŷn ein cymuned yn hanfodol gan y disgwylir i'r boblogaeth dros 50 oed gynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd i ddod. Ffocws allweddol i'n gwasanaethau yw sicrhau bod pobl hŷn a'r rhai sy'n byw gydag anabledd yn gallu cael y cyngor iawn ar yr adeg iawn i'w helpu i aros yn annibynnol a bod cyfleoedd i barhau'n weithgar yn y gymuned ar gael, waeth beth fo'u hoed. ***Rydyn ni'n ehangu ein rhaglen Hybiau ar draws gogledd y ddinas ac yn cynyddu ffocws ein holl Hybiau Cymunedol ar gefnogi pobl hŷn a hybu iechyd a llesiant*.**

Ein plant a'n pobl ifanc yw dyfodol y ddinas, ac mae cefnogi eu potensial yn un o nodau allweddol ein gwasanaethau. ***Rydym wedi nodi cynlluniau i ddatblygu Hybiau Ieuenctid arbenigol a fydd yn darparu ystod eang o gyngor, gan gynnwys cymorth i ddod o hyd i waith a chymorth gyrfaol. Bydd y gwasanaethau hyn yn gweithredu ar y cyd â gweithgareddau a digwyddiadau cadarnhaol mewn amgylchedd hamddenol addas i bobl ifanc.***


Rwy'n falch iawn o'r dull arloesol o ddarparu gwasanaethau yr ydym wedi'i fabwysiadu yng Nghaerdydd, ac rydym yn edrych ymlaen at barhau i ehangu'r model llwyddiannus hwn wrth i ni gyflawni ein rhaglen uchelgeisiol ar gyfer datblygu yn y dyfodol.




***Y Cynghorydd Lynda Thorne***

# Prif Ffigurau Perfformiad 2018/19

Ymwelodd 2,600,848 o bobl â'n Hybiau a'n Llyfrgelloedd.




Manteisiodd 799,897 o ddinasyddion ar ein cynnig digidol.




Ymaelododd 18,718 o gwsmeriaid newydd â’n llyfrgelloedd.

Daeth 181,127 o blant ac oedolion i ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn ein Hybiau a’n Llyfrgelloedd.



Daeth 66,242 o bobl i sesiynau hyfforddiant.

Roedd 417 o gyfrifiaduron ar gael i'n cwsmeriaid.



Roedd 965,231 o oriau o ddefnyddio cyfrifiaduron am ddim ar gael i'r cyhoedd.

Benthycwyd 139,782 o E-lyfrau ac E-Lyfrau Llafar.



Prynwyd 70,294 o lyfrau newydd.

Benthycwyd 525,810 o lyfrau plant ac 823,168 o lyfrau oedolion.



Cafodd 45,497 o bobl gymorth gan y Tîm i Mewn i Waith.

# Arolwg Defnyddwyr Hybiau a Llyfrgelloedd

Er mwyn helpu i ddatblygu'r strategaeth hon, gofynnwyd i ddefnyddwyr Hybiau a Llyfrgelloedd o bob oedran am eu barn ar y gwelliannau i'r Hybiau a'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yng Nghaerdydd drwy arolwg. Gofynnwyd i'r rhai dros 16 oed gwblhau'r prif arolwg a gofynnwyd i'r rhai rhwng 8 a 15 oed gwblhau'r Arolwg Plant a Phobl Ifanc.

Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am welliannau y gellid eu gwneud yn ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys llyfrau ac adnoddau, darllen, cynhwysiant digidol, gwybodaeth a chyngor, iechyd a llesiant, gweithgareddau, digwyddiadau a chymryd rhan.

Roedd copïau papur o'r ddau arolwg ar gael ym mhob Hyb a Llyfrgell ar draws Caerdydd ac roedd fersiynau ar-lein o'r arolygon hefyd ar gael.

Gwnaed gwaith hyrwyddo drwy gyfrwng gwefan a chyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Roedd yr arolwg yn fyw rhwng mis Awst a mis Medi 2019. Yn gyffredinol, cymerodd 2,364 o ymatebwyr ran yn yr arolwg, gyda 2,058 ohonynt yn cwblhau'r Arolwg Oedolion, a 306 yn cwblhau'r Arolwg Plant a Phobl Ifanc.

Mae'r canfyddiadau wedi'u cynnwys drwy'r strategaeth ar ei hyd ac wedi llywio ein nodau allweddol.



**Llyfrau Ditectif ac Iasoer oedd y rhai mwyaf poblogaidd ymhlith oedolion.**

**Roedd 47% o oedolion am weld y Clasuron Llenyddol ar gael mewn Hybiau a Llyfrgelloedd**

**Roedd gan y rhai 16-34 oed fwy o ddiddordeb mewn mynychu Cyrsiau Digidol yn yr Hybiau a'r Llyfrgelloedd, megis 'Sgiliau TGCh ar gyfer Gwaith' a 'Gwe-ddylunio'**





**Roedd 58% o oedolion am weld Llyfrau**

**Roedd 39% o oedolion am weld e-Lyfrau**

**Roedd 64% o oedolion am gael mynediad i wasanaethau llyfrgell drwy Ap Symudol**



# Crynodeb o'r Camau Gweithredu Allweddol

Mae Strategaeth Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn nodi sut y bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn darparu gwasanaethau ar draws y ddinas. Yn sail i'n gweledigaeth mae 9 nod allweddol a fydd yn cael eu gwireddu drwy gyflwyno'r 'Pethau Byddwn ni'n eu Gwneud' sy'n cael eu bwydo drwy'r strategaeth gyfan.

## EIN GWELEDIGAETH

**'Darparu gwasanaethau a chymorth o ansawdd uchel yng nghanol y gymuned'**

**Parhau i ddatblygu ein rhwydwaith Hybiau i ddarparu gwasanaethau ar draws y ddinas ar sail angen lleol drwy:**

- Sefydlu Hybiau Cymunedol ar draws gogledd y ddinas.
- Datblygu Hybiau Ieuenctid arbenigol.
- Gweithio gyda phartneriaid iechyd i ddarparu Hybiau Iechyd a Llesiant.

**Darparu ystod eang o lenyddiaeth ac adnoddau eraill i fodloni anghenion a dyheadau ein dinasyddion.**

Byddwn yn:

- Datblygu a hyrwyddo ein darpariaeth ddigidol 24 awr a chefnogi ein cwsmeriaid i gyrchu'r adnoddau sydd ar gael.
- Gweithio gyda sefydliadau arbenigol i hwyluso'r gwaith o adfer a chadw ein casgliadau hanesyddol, wrth wella mynediad i'r deunyddiau hyn.
- Asesu poblogrwydd llyfrau ac adnoddau yn barhaus ac adnewyddu ein casgliadau i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cwsmeriaid.

**Annog darllen drwy gyfrwng ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau.**

Byddwn yn:

- Cefnogi mwy o grwpiau darllen o fewn Hybiau, Llyfrgelloedd a'r gymuned ehangach, gan gynnwys clybiau llyfrau i bobl ifanc a theuluoedd.
- Parhau i ddarparu digwyddiadau llenyddol rheolaidd am ddim sy'n ysbrydoli ac yn annog darllen, megis gweithdai ysgrifennu creadigol a digwyddiadau cwrdd â'r awdur.
- Gweithio gyda grwpiau cymunedol i ddatblygu rhaglenni digwyddiadau ychwanegol yn yr Hybiau a'r llyfrgelloedd, y tu allan i'n horiau agor craidd, gan sicrhau mynediad i bawb.

## Cefnogi Ein Plant a'n Pobl Ifanc

Byddwn yn:

- Gwella llythrennedd drwy annog cynifer o blant â phosibl i gymryd rhan yn Her Ddarllen yr Haf, gan weithio'n agos gyda rhieni ac ysgolion i hyrwyddo darllen er pleser.
- Darparu sesiynau o ansawdd cyson i blant cyn oed ysgol ar draws ein holl leoliadau, boed drwy amser stori neu rigwm.
- Gweithio gyda rhieni, yn enwedig o gefndiroedd difreintiedig, er mwyn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant.
- Cynnig digwyddiadau ar gyfer plant sy'n hygyrch i bawb a sicrhau bod ein rhaglen yn cynnwys gweithgareddau ar gyfer plant sydd â heriau ychwanegol.
- Cynnig amrywiaeth o nosweithiau thema ar gyfer plant ac oedolion ifanc e.e. digwyddiadau Harry Potter, Roald Dahl.
- Ehangu clybiau gwaith cartref ar draws Hybiau i gefnogi plant a phobl ifanc.
- Darparu gwasanaethau cynaliadwy i bobl ifanc, gan ddefnyddio egwyddorion yr Hybiau i gyfuno'r ddarpariaeth bresennol a gwirfoddolwyr i estyn oriau agor.
- Gwella ein hadran i'r glasoed yn Hyb y Llyfrgell Ganolog drwy ymgynghori â phobl ifanc i sicrhau bod eu dyheadau a'u hanghenion digidol yn cael eu bodloni.

## Darparu gwybodaeth a chyngor o ansawdd uchel a hyrwyddo cynhwysiant digidol.

Byddwn yn:

- Sicrhau y darperir cyngor o ansawdd uchel drwy gydymffurfio â'r Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor.
- Parhau i gefnogi'r rhai y mae'r Diwygiadau Lles yn effeithio arnynt, eiriol dros gwsmeriaid a hyfforddi staff ynghylch y newidiadau o ddulliau papur i'r rhai digidol.
- Parhau i wella ac ehangu'r cyngor ar dai a digartrefedd sydd ar gael yn yr Hybiau.
- Gweithio mewn partneriaeth â Cymunedau Digidol Cymru a mentrau Cynhwysiant Digidol eraill i helpu pobl i fynd ar-lein.
- Darparu mwy o gyrsiau digidol modern ledled y ddinas i adlewyrchu'r dirwedd ddigidol sy'n newid yn gyflym, fel appiau, ffonau, cyfrifiaduron llechen, rhith-wirionedd, a hyfforddiant cadw'n ddiogel ar-lein.
- Hyrwyddo cynhwysiant digidol drwy sefydlu cynllun benthyca llechi ar gyfer y rheini nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd, gan gynnwys y gwasanaethau symudol a'r gwasanaethau i bobl sy'n gaeth i'r tŷ.
- Cynyddu'r gwasanaethau digidol sydd ar gael yn yr Hybiau i gynnwys app adnewyddu llyfrau, gorsafoedd sganio ac argraffu cwmwl yn uniongyrchol o ffonau clyfar.
- Cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd ledled Caerdydd, gan hysbysebu'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl fanteisio ar dechnoleg.

## Trechu tlodi trwy helpu pobl i gael gwaith ac annog dysgu

Byddwn yn:

- Hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli drwy Borth Gwirfoddoli Caerdydd, rhoi lleoliad gwirfoddoli ystyrlon i bob gwirfoddolwr a neilltuo mentor i bob person yn y gweithle, gan wella eu sgiliau i'w gwneud yn fwy parod ar gyfer gwaith.
- Cynyddu nifer y ffeiriau swyddi lleol sy'n cael eu cynnal mewn Hybiau lleol a pharhau i drefnu digwyddiadau recriwtio wedi'u targedu, drwy gydweithio â chyflogwyr lleol, darparwyr hyfforddiant, sefydliadau dysgu a sefydliadau partner allweddol.
- Ehangu’r gwasanaeth recriwtio a gynigir i gyflogwyr, drwy gynnal sgrinio CV a chyn asesu, gan ddarparu sesiynau technegau cyfweliad i ddarpar weithwyr, a hysbysebu cyfleoedd drwy gyfryngau cymdeithasol.
- Mynd ati i chwilio am gyllid arall a chyllid ychwanegol i gefnogi ein gwasanaethau I Mewn i Waith.
- Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu cyngor annibynnol ar yrfaoedd i bob oed mewn Hybiau.
- Gweithio gyda phartneriaid i gynnig rhaglen ehangach o gyrsiau sgiliau sylfaenol mewn Hybiau, i gynnwys y rheini sy'n dysgu Cymraeg neu Saesneg.
- Cynnal adolygiad llawn o'r Gwasanaeth Dysgu i Oedolion er mwyn lliniaru effaith y toriadau mewn cyllid.

## Hyrwyddo iechyd a llesiant

Byddwn yn:

- Parhau i gydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu gwybodaeth iechyd yn ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd sy'n diwallu anghenion y gymuned leol.
- Parhau i ddatblygu rhagor o gasgliadau ac adnoddau llyfrau sy'n cefnogi iechyd a llesiant grwpiau a dargedir yn ein cymunedau.
- Helpu ein cwsmeriaid i ddeall a rheoli eu cyflyrau iechyd yn well, gan gynnwys darparu digwyddiadau ac adnoddau iechyd a llesiant.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu grwpiau cymorth, e.e. ar gyfer y rhai sydd â phroblemau Iechyd Meddwl a Gofalwyr.
- Gwella’r Cyngor Byw’n Annibynnol sydd ar gael trwy’r Hybiau.
- Hyfforddi pob aelod o staff yn yr Hybiau i fod yn Gyfeillion Demensia, datblygu pob Hyb yn Lle sy’n Deall Demensia, darparu sesiynau gwybodaeth a chymorth Demensia yn ogystal â chaffis Demensia.
- Cefnogi gwaith y Ddinas sy’n Dda i Bobl Hŷn drwy gyflwyno gweithgareddau Heneiddio'n Dda a rhaglen gyda mwy o ddigwyddiadau sy'n cefnogi iechyd a llesiant pobl hŷn.

- Darparu cyrsiau cyfannol gyda phartneriaid, megis garddio, coginio, ffotograffiaeth, gemwaith a D.I.Y.
- Darparu mwy o gyrsiau ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol i annog plant ac oedolion ifanc i gymryd rhan yn y celfyddydau.

## Dwyn cymunedau ynghyd

Byddwn yn:

- Defnyddio partneriaid a gwirfoddolwyr i gyflwyno grwpiau eraill â diddordebau cyffredin, i leddfu teimladau ynysig, gan gynnwys cynnal byrddau Sgwrsio, bod yn gyfaill a datblygu rhwydweithiau cefnogi.
- Annog pobl i fod yn Ddinasyddion Gweithgar drwy hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli, a chefnogi ei gilydd drwy ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd.
- Parhau i gynnal boreau coffi a chlybiau cinio, wrth gynyddu gweithgareddau cymdeithasol fel clybiau ffilm mewn Hybiau.
- Parhau i ehangu ein hymgysylltiad â chymunedau lleol, gan adeiladu rhwydweithiau a chysylltu â gwasanaethau eraill yn y gymuned.
- Cefnogi ailgylchu cymunedol i gynnwys mannau gollwng i ailgylchu gwisg ysgol ar gyfer ysgolion lleol.
- Darparu gwybodaeth a digwyddiadau cymunedol lleol, gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel un sianel i hysbysebu’r hyn sydd ar gael.
- Datblygu ffyrdd arloesol o wella gwirfoddoli gan wneud y defnydd gorau o sgiliau'r rhai sydd eisiau gwirfoddoli drwy greu gweithgareddau newydd.

## Dathlu ein treftadaeth a'n diwylliant

Byddwn yn:

- Ysbrydoli, hysbysu a dod â phobl at ei gilydd drwy ddarparu adnoddau a digwyddiadau cysylltiedig hanesyddol ar draws y ddinas.
- Gweithio gyda'n partneriaid a chymunedau lleol i gynyddu nifer y digwyddiadau diwylliannol ac i ddenu amrywiaeth eang o bobl.

# Ein Hybiau

## Dull newydd o ddarparu gwasanaethau cymunedol

Lansiwyd dull newydd o greu cymunedau cydnerth yng Nghaerdydd yn 2011 pan nododd y Cyngor ei ymrwymiad i ddatblygu Hybiau. Mae Hybiau'n dod ag amrywiaeth eang o wasanaethau'r cyngor a'i bartneriaid at ei gilydd mewn un adeilad, gan ddarparu gwasanaethau cynhwysfawr sy'n seiliedig ar anghenion y gymuned leol. Gall y rhain gynnwys gwasanaethau llyfrgell, cyngor ar dai a budd-daliadau, cyngor ar arian, gwasanaethau i mewn i waith, cyfleoedd dysgu, digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol, gwasanaethau ieuenctid ac, os oes lle, yn caniatáu caffi.

## Hybiau Cymunedol

Mae 12 Hyb wedi'u sefydlu: 11 Hyb Cymunedol a Hyb y Llyfrgell Ganolog yng nghanol y ddinas yn adeilad eiconig Llyfrgell Caerdydd. Mae mannau deniadol a bywiog wedi'u creu sydd wedi denu nifer mawr o gleientiaid o bob oed. Mae cydleoli wedi arwain at gynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau.

Yn 2018/19, roedd nifer yr ymwelwyr â'n holl Hybiau yn 1,837,199, cynnydd o 8% ar y flwyddyn flaenorol.

Mae dod â gwasanaethau at ei gilydd wedi lleihau costau hefyd, gan gynyddu cynaliadwyedd adeiladau cymunedol Caerdydd ac annog buddsoddi cyfalaf. Ar adeg pan fo llawer o gynghorau eraill yn cau gwasanaethau lleol, mae Caerdydd wedi ehangu ei darpariaeth leol a'i gwella.

## Y projectau Hybiau Cymunedol sydd wedi'u cyflawni hyd yn hyn:

- Hyb Trelái a Chaerau (agorwyd Mehefin 2014)
- Gwelliannau i Hyb Llanrhymni (cwblhawyd Gorffennaf 2016)
- Hyb Grangetown (agorwyd Ionawr 2016)
- Hyb Partneriaeth Tredelerch (agorwyd Chwefror 2016)
- Hyb y Tyllgoed (agorwyd Mai 2016)
- Hyb STAR (agorwyd Medi 2016)
- Hyb Ystum Taf a Gabalfa (agorwyd Ionawr 2017)
- Hyb Llanedern @ The Powerhouse (agorwyd Gorffennaf 2017)
- Hyb Llanisien (agorwyd Rhagfyr 2017)
- • Hyb Llaneirwg (agorwyd Awst 2018)



Grangetown Hub



'Seddau caffi yn nerbynfa Hyb STAR

# Hybiau Cymunedol a Ddatblygwyd yn Ddiweddar

## Hyb Llanedern @ The Powerhouse



'Prif fynedfa The Powerhouse'

**Agorodd The Powerhouse ym mis Gorffennaf 2017.**

Mae buddsoddiad £2m gan Gyngor Caerdydd wedi galluogi darparu amrywiaeth o wasanaethau y mae trigolion yn Llanedern eu hangen ac yn gwneud defnydd ohonynt. Roedd hefyd yn galluogi Heddlu De Cymru i ddarparu llety newydd ar gyfer eu swyddogion yn Llanedern.

**Cynyddodd nifer yr ymwelwyr yn Hyb Llanedern 88% rhwng mis Awst 2017 a mis Mawrth 2019.**

Mae'r gwasanaethau sydd ar gael yn cynnwys:

- Gwasanaethau cynghori, tai a budd-daliadau
- Gwasanaeth llyfrgell llawn, gan gynnwys ardal i blant a chyfrifiaduron cyhoeddus
- Cyngor i mewn i waith a chyrsiau hyfforddi
- Ystafell hyfforddi TG
- Cymorth a chyngor arbenigol gan sefydliadau partner
- Caffi cymunedol
- Ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd a



Cyfrifiaduron cyhoeddus yn The Powerhous



Derbynfa The Powerhouse

# Hyb Ystum Taf a Gabalfa



Prif fynedfa Hyb Ystum Taf a Gabalfa

**Hyb Ystum Taf a Gabalfa a agorwyd ym mis Ionawr 2017.**

Ymgymerwyd â gwaith i adnewyddu'r hen Lyfrgell a Chanolfan Ddydd Ystum Taf yn llwyr er mwyn creu'r Hyb hwn. Gall cwsmeriaid fanteisio ar amrywiaeth eang o wasanaethau cynghori, a gwybodaeth cymunedol yn gynt ac yn fwy cyfleus nag erioed o'r blaen. Cynhelir digwyddiadau a gweithgareddau yn yr Hyb a gyda'i gyfleusterau arbenigol i bobl anabl, gall pob aelod o'r gymuned gymryd rhan.

- **Cynyddodd nifer yr ymwelwyr â Hyb Ystum Taf a Gabalfa gan dros 200% rhwng Ionawr 2017 a Mawrth 2019.**
- **Cynyddodd nifer yr aelodau llyfrgell newydd gan 82% rhwng 2016/17 a 2018/19.**

Mae'r cyfleusterau'n cynnwys:

- Cwrt awyr agored sy'n galluogi golau naturiol i ddod i mewn
- Ardal lyfrgell a chaffi
- Cyfleuster cymunedol mawr gyda'i fynedfa a'i gegin fach ei hun
- Paneli solar wedi'u gosod ar y to sy'n wynebu'r de
- Gwaith tirlunio, parcio a stondinau beiciau gwell



Cyfrifiaduron at ddefnydd y cyhoedd yn yr Hyb

# Hyb Llanisien



Prif fynedfa Hyb Llanisien

**Agorodd Hyb Cymunedol Llanisien ei ddrysau i'r cyhoedd ym mis Rhagfyr 2017.**

Wedi'i leoli ar lawr gwaelod Gorsaf Heddlu Llanisien, yr adeilad wedi'i adnewyddu yw'r esiampl ddiweddaraf o waith partneriaeth rhwng Cyngor Caerdydd a Heddlu De Cymru, gan ddod ag amrywiaeth eang o gyngor, gwybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor ynghyd ar gyfer y gymuned leol.

Mae'r Hyb yn gartref newydd i Lyfrgell Llanisien gydag ardal ddisglair a chroesawgar i blant, yn ogystal â'n gwasanaethau Hyb arferol, gan gynnwys ystafell TGCh fawr, ystafelloedd cymunedol a chyfweliad, toiledau cyhoeddus cwbl hygyrch a chyfleusterau newid cewynnau.

- **Bu cynnydd o 44% yn nifer yr ymwelwyr â Hyb Llanisien rhwng mis Awst 2017 a mis Mawrth 2019.**
- **Bu cynnydd o 137% yn aelodau newydd y Llyfrgell rhwng 2017/18 a 2018/19.**


Cyfrifiaduron cyhoeddus yn Hyb


Ardal ddarllen Hyb Llanisien

# Hyb Llaneirwg




Prif fynedfa Hyb Llaneirwg

**Agorodd Hyb Llaneirwg ei ddrysau ym mis Awst 2018.**

Mae gwaith adeiladu estyniad mawr newydd ac adnewyddu'r adeilad presennol wedi trawsnewid yr Hyb yn gyfleuster cymunedol modern.

- **Bu cynnydd o 77% yn nifer yr ymwelwyr â Hyb Llaneirwg rhwng mis Awst 2018 a mis Mawrth 2019.**
- **Bu cynnydd o 33% yn aelodau newydd y llyfrgell rhwng 2017/18 a 2018/19.**

Mae'r Hyb newydd yn cynnig ystod o wasanaethau a chyfleusterau gan gynnwys:

- Gwasanaethau tai, budd-daliadau a chynghori
- Gwasanaeth llyfrgell gan gynnwys cornel blant, cyfrifiaduron cyhoeddus, a mynediad i'r rhyngrwyd a Wi-Fi am ddim
- Cyngor i mewn i waith a chyrsiau hyfforddi
- Caffi Cymunedol a Chegin Hyfforddi
- Cilfach pobl ifanc a stiwdio recordio cerddoriaeth
- Neuadd gymunedol amlbwrpas ac ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau cymunedol
- Ardal gemau aml-ddefnydd awyr agored
- Crèche Dechrau'n Deg
- Swyddog heddlu cymunedol




Y Caffi yn Hyb Llaneirwg




Y Llyfrgell yn Hyb Llaneirwg

# Cynigion ar gyfer Hybiau i'r Dyfodol

## Hybiau Cymunedol sy'n canolbwyntio ar lesiant

Roedd y broses o ddatblygu'r Hybiau Cymunedol yn canolbwyntio i ddechrau ar Fwa Deheuol y ddinas, lle mae effeithiau heriol cyni a'r angen am gyngor ar eu mwyaf. Fodd bynnag, ym 2018 cytunodd Cabinet Caerdydd i ehangu project yr Hybiau ar draws gweddill y ddinas.

Bwriedir defnyddio egwyddorion yr Hyb ac arfer gorau mewn llyfrgelloedd i ddatblygu'r llyfrgelloedd cangen cymunedol presennol yn Hybiau gyda'r pwyslais ar ddarparu gwasanaeth iechyd a llesiant.




Mae gwasanaethau Hybiau eisoes wedi'u cyflwyno i'r adeiladau hyn, gyda staff hyfforddedig yn cynnig amrywiaeth o gyngor a chymorth a mwy o weithgareddau. Yr Eglwys Newydd a Rhydypennau fydd y llyfrgelloedd cangen cymunedol cyntaf i'w trawsnewid yn llawn yn Hybiau a disgwylir iddynt gael eu hadnewyddu a bod yn gwbl weithredol yn 2020, yn amodol ar gyllid.

Ym mis Chwefror 2019, cynhaliwyd ymgynghoriadau cyhoeddus ar gynigion i ehangu gwasanaethau yn llyfrgelloedd yr Eglwys Newydd a Rhydypennau a chreu Hybiau Cymunedol gyda phwyslais ar lesiant. Roedd canlyniadau'r ymgynghoriad yn dangos bod cefnogaeth fawr o blaid y cynigion. Gwnaed nifer o awgrymiadau ar gyfer gwella'r cynlluniau drafft ac rydym wedi'u cynnwys lle y bo'n bosibl.



Argraff artist o Lyfrgelloedd yr Eglwys Newydd a Rhydypennau yn dilyn y gwaith trawsnewid

## Hybiau Iechyd a Llesiant

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddatblygu cenhedlaeth newydd o Hybiau Iechyd a Llesiant a fydd yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau dan yr un to.

Bydd yr Hyb Llesiant @Park View yn cael ei integreiddio â Hyb Trelái a Chaerau, gan ddisodli adeilad yr hen Ganolfan Iechyd ger yr Hyb presennol. Bydd gwasanaethau'r GIG ar gael, megis clinigau meddygon teulu a chlinigau arbenigol, yn ogystal â gwasanaethau a ddarperir eisoes gan Gyngor Caerdydd.

Mae safle tebyg hefyd yn cael ei ddatblygu yn Llanedern.  Bydd Hyb Cymunedol presennol y Powerhouse yn cael ei ehangu a'i gysylltu â Hyb Llesiant newydd yn y Maelfa.

Disgwylir y bydd pob cynllun yn cael ei gyflawni cyn diwedd 2021.

## Adolygu'r gwasanaethau a ddarperir i ddiwallu anghenion lleol

Cydnabyddir bod gan rai ardaloedd yng Nghaerdydd, fel Glan yr Afon, lefelau sylweddol o amddifadedd ond nad oes Hyb Cymunedol ganddynt. Felly, cynigir adolygu'r gwasanaethau a ddarperir yn y wardiau mwyaf difreintiedig heb ddarpariaeth Hyb, er mwyn sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu diwallu drwy alinio gwasanaethau yn y ffyrdd mwyaf effeithiol.

# Hybiau Ieuenctid

## Cydleoli Gwasanaethau Ieuenctid a Hybiau


Dechreuwyd darparu gwasanaethau ieuenctid wedi'u cydleoli yn Hyb y Powerhouse ac mae'r safle hwn bellach wedi ehangu i gynnwys Hyb Llaneirwg, gan alluogi amrywiaeth ehangach o wasanaethau a gweithgareddau cydlynol i gael eu darparu i bobl ifanc ynghyd â'r gwasanaethau ieuenctid traddodiadol.

Bydd datblygu Hybiau Ieuenctid arbenigol yn mynd â hyn gam ymhellach, gyda gwasanaethau a gweithgareddau estynedig yn cael eu darparu gan y Cyngor a'i bartneriaid mewn ffordd gydlynol, yn unol â model yr Hybiau.

**Hyb Llaneirwg**


Mae'r Gwasanaethau Ieuenctid a thîm Hyb Llaneirwg yn cydweithio'n agos i gynnig dewis amrywiol o weithgareddau gan gynnwys clybiau codio; grwpiau darllen llyfrau ac ysgrifennu creadigol iau; twrnameintiau pŵl a chystadlaethau talent. Mewn ymateb i'r galw, mae sesiynau ychwanegol wedi eu cynnal yn ystod gwyliau ysgol.  Mae cyfrifiaduron ar gael yn rhwydd ynghyd â lle i astudio.

Mae gweithio mewn partneriaeth ag Innovate Trust wedi galluogi defnyddio cegin y caffi yn ystod nosweithiau clwb ieuenctid ar gyfer dosbarthiadau coginio, ac mae'r cwmni lleol Sound Progression yn rheoli'r ystafell gerddoriaeth, gan gynnig sgiliau recordio a chynhyrchu.





# Hyb Ieuenctid Pafiliwn Butetown




Argraff artist o’r tu mewn i Hyb Ieuenctid Butetown

Mae Pafiliwn Ieuenctid Butetown ar Heol Dumballs yn cael ei drawsnewid yn Hyb Ieuenctid.

Ym mis Medi 2018 daeth Pafiliwn Ieuenctid Butetown o fewn rhaglen yr Hybiau ac mae eisoes wedi gallu cynyddu ei oriau agor yn ystod y dydd a chyda'r nos. Mae cydleoli gwasanaethau a mwy o weithio mewn partneriaeth wedi galluogi amserlen estynedig a chynaliadwy.

Mae'r dosbarthiadau a gaiff eu cynnig yn cynnwys gymnasteg; coginio; pêl fasged a sesiynau colur i ferched; a sesiynau mentora. Mae'r digwyddiadau a gynhelir yn cynnwys ffeiriau gyrfaoedd, diwrnodau hwyl a gweithdai rhyngweithiol gyda No Fit State Circus. Mae gwasanaethau i mewn i waith ar y safle bob dydd gyda mentoriaid ieuenctid yn cynnig cymorth a chyngor ar swyddi.

**Hyb Ieuenctid Canol y Ddinas**

Yn amodol ar gyllid, mae ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol hefyd yn cynnwys Hyb Ieuenctid Canol y Ddinas i ddarparu amrywiaeth eang o gyngor a gwasanaethau i bobl ifanc mewn lleoliad hamddenol. Mae'r datblygiad hwn yn bartneriaeth rhwng Gwasanaethau Plant, Tai, Gwasanaethau Ieuenctid ac Iechyd y Cyngor. Bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu cydleoli, gan gynnig un 'drws ffrynt' i bobl ifanc sy'n chwilio am wybodaeth, cyngor a chymorth. Bydd pwyslais yr Hyb ar weithgarwch i mewn i waith a bydd yn annog busnesau cychwynnol.




Argraff artist o Hyb Ieuenctid arfaethedig Canol y Ddi-

**BYDDWN YN:**

- Parhau i ddatblygu ein rhwydwaith Hybiau i ddarparu gwasanaethau ar draws y ddinas ar sail angen lleol drwy:
- Sefydlu Hybiau Cymunedol ar draws gogledd y ddinas.
- Datblygu Hybiau Ieuenctid arbenigol.
- Gweithio gyda phartneriaid iechyd i ddarparu Hybiau Iechyd a Llesiant.

# Ein Gwasanaeth Llyfrgelloedd

## Cynigion Cyffredinol

Mae Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr wedi gweithio gyda phartneriaid i nodi meysydd gwasanaeth allweddol y mae cwsmeriaid yn ystyried eu bod yn hanfodol i lyfrgelloedd cyhoeddus. Maent wedi datblygu Cynnig Cyffredinol ar gyfer pob un o'r ardaloedd hyn, gan ddarparu gweledigaeth gadarnhaol ar gyfer dyfodol llyfrgelloedd cyhoeddus.

Cafodd y cynigion eu hadolygu'n ddiweddar a chyhoeddir fframwaith newydd ym mis Ebrill 2020 a fydd yn canolbwyntio ar Ddarllen; Gwybodaeth a Digidol; Diwylliant a Chreadigrwydd; ac Iechyd a Llesiant – gwasanaethau â blaenoriaeth i lyfrgelloedd.

Mae'r Cynigion Cyffredinol yn addewid i gwsmeriaid ac yn ymrwymiad i ansawdd gyda'r nod o gyflawni canlyniadau allweddol i ddiwallu anghenion cymunedau lleol. Mae Cyngor Caerdydd yn canolbwyntio ar gyflwyno'r Cynigion Cyffredinol yn rhagweithiol i'n cwsmeriaid ac mae'r rhain wedi'u gwreiddio yn y strategaeth hon.

## Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol 2017 – 2020

Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol yw'r fframwaith a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i fesur perfformiad gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r fframwaith yn mesur 12 Hawl Graidd ac 16 Dangosydd Ansawdd. Mae gan ddeg o'r Dangosyddion Ansawdd dargedau penodol. Defnyddir monitro a meincnodi yn erbyn awdurdodau eraill fel ffordd o fesur perfformiad ar gyfer y chwe dangosydd sy'n weddill.




## Y Gorau yng Nghymru

Yn 2018/19, o'i gymharu â gweddill Cymru, roedd ein perfformiad yn dda iawn. Ni berfformioddd orau trwy Gymru yn y categorïau canlynol:

**2,600,848** o ymweliadau y pen

**799,897** o ymweliadau rhithwir y pen

**91,000** o fenthycwyr gweithredol y pen

**214** o wirfoddolwyr

### Perfformiad yn erbyn yr Hawliau Craidd

Ym 2018/19, llwyddon ni i gyflawni 11 o'r 12 Hawl Graidd. Ni wnaethom fodloni'r gofyniad i 'ddarparu mynediad i strategaeth, polisïau, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgelloedd'. Bydd y strategaeth hon yn sicrhau y caiff yr Hawl Graidd hon ei chyflawni yn 2019/20.

Nodwyd bod cefnogaeth gref dros iechyd a llesiant. Ni yw un o'r ychydig ardaloedd sy'n cynnig ystod lawn o wasanaethau iechyd a llesiant. Mae hyn yn cynnwys y cynllun darllen yn dda, llyfrau ar bresgripsiwn, gwell cynllun llyfrau, casgliad iechyd a llesiant dynodedig, gwybodaeth am ffyrdd o fyw iach ac ymddygiad a chyfeirio at wasanaethau iechyd a llesiant eraill.

**Perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Ansawdd**

Yn 2018/19, o'r deg Dangosydd Ansawdd â thargedau, bodlonwyd wyth yn llawn, gan wella ar ein perfformiad yn 2017/18.  Y rhai a fodlonwyd oedd:

- Cymorth ar gyfer datblygiad unigol
- Cymorth ar gyfer iechyd a llesiant
- Digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr ag anghenion arbennig
- Lleoliad mannau gwasanaeth
- Adnoddau iaith Gymraeg
- Mynediad ar-lein
- Cyflenwi ceisiadau
- Oriau agor y pen

Bodlonwyd un targed yn rhannol ac ni fodlonwyd un arall.

**Lefelau Staffio a Chymwysterau**

Mae Caerdydd yn ymrwymedig i redeg ein llyfrgelloedd gyda staff cyflogedig, gyda chymorth gan grwpiau gwirfoddolwyr a chyfeillion. Ym 2018/19, ein lefelau staffio cyffredinol oedd yr uchaf yng Nghymru. Caerdydd yw'r unig gyngor i gyrraedd targed Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

Fodd bynnag, mae ein staff cymwys y pen yn is na'r targed ar hyn o bryd. Rydym yn annog ein holl staff i ymgymryd â chymwysterau NVQ lefel 3. Yn anffodus, nid yw'r diffiniadau cyfredol yn y safonau ond yn cynnwys cymwysterau gradd cydnabyddedig mewn llyfrgellyddiaeth, gwyddor gwybodaeth neu reoli gwybodaeth.

**Deunydd Darllen Cyfoes a Phriodol**

Rydym yn ymrwymedig i ddiwallu anghenion darllen ein dinasyddion. Ein nod yw sicrhau'r gwerth gorau am arian drwy arfer da wrth gaffael a chymryd rhan mewn consortia cenedlaethol sy'n sicrhau gostyngiadau iach.

Nid ydym yn cyrraedd y targed ar gyfer gwario ar lyfrau; fodd bynag, oherwydd y gwerth da a gyflawnwn, gallwn fodloni anghenion ein dinasyddion.

**Yn 2018/19 gwariodd Caerdydd £539,000 ar brynu 70,294 o lyfrau,**

Nododd Llywodraeth Cymru hefyd:

**"Mae nifer y benthycwyr gweithredol ac aelodau llyfrgelloedd wedi cynyddu, sy'n dangos bod gwasanaethau llyfrgell yn parhau i ymestyn eu cyrhaeddiad.**

**Mae benthyca gan blant yn parhau i fod yn gryf (gan adlewyrchu gwariant a flaenoriaethwyd yn y maes hwn), gyda'r gwasanaeth bellach yn cofnodi'r nifer uchaf o fenthyciadau gan plant y pen yng Nghymru."**

# Cynnig Llenyddiaeth ac Adnoddau Eraill




Hyb y Llyfrgell Ganolog

## Hyb y Llyfrgell Ganolog

Rydym yn darparu casgliad cynhwysfawr a chyfoes o lyfrau yn Hyb y Llyfrgell Ganolog, gan gynnwys amrywiaeth eang o lyfrau ffuglen a ffeithiol hyd at lefel israddedig, casgliad cynhwysfawr i blant a gwaith mewn ieithoedd eraill. Mae'r adnoddau eraill sydd ar gael yn cynnwys llawer o gylchgronau a phapurau newydd (gan gynnwys mewn ieithoedd eraill) a deunyddiau cyfeirio ar ffurf copi caled ac ar-lein.

Byddwn yn parhau i asesu'r defnydd a wneir o'r llyfrau a'r adnoddau sydd ar gael yn Hyb y Llyfrgell Ganolog er mwyn sicrhau bod y casgliadau hyn yn diwallu anghenion ein cwsmeriaid.

## Casgliadau mewn Hybiau a Llyfrgelloedd Lleol

Mae detholiad o lyfrau ac adnoddau eraill ar gyfer pob oedran ar gael yn ein hybiau a'n llyfrgelloedd lleol ar draws y ddinas, wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion lleol. Er mai llyfrau ffuglen, gan gynnwys clasuron poblogaidd, yw prif ffocws ein darpariaeth leol, darperir casgliadau llai o deitlau ffeithiol poblogaidd hefyd. Byddwn yn cysylltu â chymunedau lleol i'n helpu i ddatblygu ein casgliadau er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion lleol.

### Astudiaethau Lleol

Mae casgliad astudiaethau lleol cynhwysfawr yn ein Llyfrgell Dreftadaeth yn Cathays. Mae hwn yn cynnwys casgliad mawr o ddeunyddiau cyfredol a hanesyddol sy'n ymwneud â Chaerdydd. Nod y casgliad hwn yw cadw a dathlu treftadaeth hanesyddol a diwylliannol unigryw Caerdydd. Byddwn yn hyrwyddo'r casgliad hwn mewn partneriaeth ag ysgolion a thrwy arddangosiadau a gweithgareddau mewn canolfannau a llyfrgelloedd ledled y ddinas.

### E-lyfrau ac Adnoddau

Mae E-adnoddau cynhwysfawr ar gael ddydd a nos trwy ein catalog llyfrgell ac mae'r rhain yn cynnwys llyfrau, llyfrau llafar, cylchgronau a chomics. Byddwn yn sicrhau ein bod yn adnewyddu'r teitlau sydd ar gael yn barhaus ac yn cefnogi ein cwsmeriaid i'w defnyddio.

**BYDDWN YN:**

- Datblygu a hyrwyddo ein darpariaeth ddigidol 24 awr a chefnogi ein cwsmeriaid i gyrchu'r adnoddau sydd ar gael.

## Deunydd Cyfeiriol

Rydym yn ymrwymedig i ddarparu adnoddau cyfeiriol sy'n cefnogi dysgu ac ymchwil. Er bod detholiad bach o ddeunydd cyfeiriol ar gael ar ffurf copi caled ar hyn o bryd, caiff hyn ei ddarparu'n gynyddol ar-lein, gan sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf ar gael i gwsmeriaid.

## Casgliadau arbennig wedi'u targedu

Bydd teitlau sy'n ategu digwyddiadau a hyrwyddiadau arbennig yn cael eu cynnal gan gynnwys llyfrau ac adnoddau eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd.





## Casgliadau Hanesyddol

Rydym yn falch o gasgliad etifeddiaeth Caerdydd o lawysgrifau a llyfrau a gasglwyd ar ddechrau'r 20fed ganrif a byddwn yn sicrhau bod y rhain yn parhau ym meddiant y ddinas. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth, Prifysgol Caerdydd a sefydliadau arbenigol eraill i adfer a diogelu'r casgliad hwn a, lle bo modd, sicrhau eu bod ar gael yn rhwyddach drwy ddigideiddio.
Bydd llyfrau ac adnoddau eraill sydd o bwys diwylliannol neu hanesyddol arbennig i Gaerdydd yn cael eu cadw yn y ddinas a bydd modd cael mynediad i'r rhain drwy arddangosiadau ac arddangosfeydd arbennig. Caiff eitemau eraill o'r casgliad eu rhoi ar fenthyg i sefydliadau mwy priodol.

Lle gwneir y penderfyniad i roi deunydd ar fenthyg i sefydliad arall, byddwn yn sicrhau bod gan ein dinasyddion hawliau mynediad i'r deunyddiau hyn a'u bod yn gwbl ymwybodol o sut i gael gafael arnynt. Byddwn hefyd yn cefnogi ymchwilwyr Caerdydd i wneud unrhyw ymchwil sy'n gysylltiedig â'r casgliadau hyn. Bydd perchenogaeth barhaus ar y deunyddiau hyn a mynediad iddynt yn cael eu cadarnhau mewn cytundebau benthyg ffurfiol gyda'r sefydliadau dan sylw.

**BYDDWN YN:**

- Gweithio gyda sefydliadau arbenigol i hwyluso'r gwaith o adfer a chadw ein casgliadau hanesyddol, wrth wella mynediad i'r deunyddiau hyn.

## Mynediad Cyfartal

Mae casgliadau cynrychioliadol o lyfrau print bras a llyfrau llafar ar gael ar draws ein lleoliadau.

Mae casgliadau Cymraeg yn cael eu darparu yn yr holl lyfrgelloedd a hybiau yn unol â'n hymrwymiad i drin y Gymraeg yn gyfartal. Bydd llyfrau mewn ieithoedd eraill yn cael eu darparu ledled y ddinas i ddiwallu anghenion lleol.

## Cadw Llyfrau

Mae ein Pentwr Llyfrau yn cynnwys amrywiaeth eang o lyfrau ac adnoddau eraill. Gall cwsmeriaid gael gafael ar yr holl eitemau drwy ein catalog a gellir cadw eitemau yn rhad ac am ddim ar gyfer casgliad lleol. Gellir cadw llyfrau nad ydynt ar gael yng Nghaerdydd hefyd a bydd y rhain naill ai'n cael eu benthyca gan y gwasanaeth rhyngfenthyca rhanbarthol neu drwy fenthyciadau'r Llyfrgell Brydeinig. Gellir codi tâl am gadw eitemau o'r tu allan i Gymru. Ein nod yw cyflawni ceisiadau am lyfrau rhwng 7 a 15 niwrnod, yn amodol ar argaeledd.

## Adnewyddu ein Casgliadau

**Prynu eitemau newydd**

Goruchwylir prynu stoc newydd gan ein Tîm Strategaeth Llyfrgelloedd ac mae'r pwyslais ar ddarparu amrywiaeth o ddeunyddiau sy'n diwallu anghenion ein dinasyddion.
Y nod yw darparu amrywiaeth gynhwysfawr o ddeunyddiau a ddewisir ar gyfer eu gwerth llenyddol, diwylliannol, adloniadol neu addysgol. Sicrheir cost-effeithiolrwydd o ran prynu stoc newydd trwy weithio gyda chonsortia llyfrgelloedd yng Nghymru ar gyfer llyfrau oedolion a phlant yn ogystal ag E-adnoddau. Mae hyn yn ein galluogi i sicrhau'r gostyngiad mwyaf posibl ar gostau ac yn ein helpu i brynu mwy o lyfrau.

**Ymgynghori**

Byddwn yn parhau i ymgynghori â'n cwsmeriaid er mwyn sicrhau bod y llyfrau ac adnoddau eraill a ddarparwn yn diwallu eu hanghenion.

**Gwaredu stoc**

Mae eitemau yn cael eu hystyried ar gyfer eu gwaredu pan nad ydynt yn gyfredol mwyach, nad ydynt yn cael eu defnyddio, pan fo copïau dyblyg ar gael neu os yw'r llyfr mewn cyflwr gwael. Caiff poblogrwydd stoc ei asesu trwy ddefnyddio'r System Rheoli Llyfrgell ac mae stoc yn cael ei "chwynnu" yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod lle'r llyfrgell yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.
Bydd eitemau sy'n brin neu'n gasgladwy, o ddiddordeb Cymreig neu leol arbennig, neu nad ydynt ar gael mewn mannau eraill yn cael eu cadw yn ein cyfleuster storio llyfrau neu eu rhoi ar fenthyg i sefydliadau partner (gweler y casgliadau hanesyddol uchod). Bydd pob eitem arall yr ystyrir nad oes ei hangen mwyach yn cael ei gwerthu, lle bo'n bosibl, ei chynnig i sefydliadau neu unigolion eraill, neu eu hailgylchu.

| BYDDWN YN: |
| --- |
| • Asesu poblogrwydd llyfrau ac adnoddau yn barhaus ac adnewyddu ein casgliadau i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cwsmeriaid. |

# Annog Darllen

Mae darllen rheolaidd yn helpu i ddatblygu sgiliau pwysig, sy'n arwain at fwy o gyfleoedd mewn bywyd. Dengys ymchwil y gall darllen er pleser arwain at fwy o empathi a gwell cydberthnasoedd ag eraill, lleihau symptomau iselder a dementia, gwella llesiant a hefyd helpu i ddatblygu ymdeimlad o gysylltiad â'r gymuned ehangach.

Rydym yn darparu llyfrau ac adnoddau i'n cwsmeriaid i'w helpu i fwynhau darllen a hynny mewn fformatau sy'n diwallu eu hanghenion. Rydym yn gweithio gyda chyflenwyr arbenigol i sicrhau bod ein stoc yn amrywiol ac yn rhoi amrywiaeth eang o ddewisiadau darllen i'n cwsmeriaid. Rydym yn gwrando ar adborth ein cwsmeriaid i sicrhau bod ein pryniadau yn addas i'r diben.

## Sicrhau bod pawb yn gallu mwynhau darllen

Mae amrywiaeth o fformatau ar gael i'n cwsmeriaid sydd â gofynion darllen penodol. Mae hyn yn cynnwys print bras, E-Lyfrau Llafar, CD sain, Llyfrau Llafar, Llyfrau Braille a llyfrau mewn dwy iaith sy'n cynnig testun mewn dwy iaith wahanol sydd o fudd i ddysgwyr iaith a darllenwyr dwyieithog. Rydym hefyd yn darparu llyfrau mewn ystod o ieithoedd.

Byddwn yn parhau i weithio gyda grwpiau defnyddwyr gwasanaethau megis Sefydliad y Deillion Caerdydd, i sicrhau bod ein casgliadau yn berthnasol ac yn diwallu anghenion ein cwsmeriaid.

Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd ar y cyd â Chymdeithas Dyslecsia Prydain i sicrhau bod Gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn gwbl hygyrch i'r rheini y mae dyslecsia'n effeithio arnynt. Bydd hyn yn cynnwys oedolion a phlant. Caiff adnoddau eu darparu gan gynnwys E-lyfrau, pennau darllen, troshaenau tudalennau, a phrennau darllen. Bydd staff gwybodus a hyfforddedig yn helpu cwsmeriaid i gael mynediad i gasgliadau llyfrau cymorth Dyslecsia ym mhob hyb a llyfrgell.

## Llyfrgell Deithiol

Mae'r llyfrgell deithiol yn mynd â gwasanaeth llawn i gymuned Caerdydd drwy ymweld ag ardaloedd nad oes ganddynt fynediad hawdd i lyfrgell leol a lle mae nifer uchel o bobl oedrannus neu fregus a fyddai, fel arall, yn ei chael hi'n anodd cyrraedd eu cangen agosaf. Os nad oes gennym yr hyn y mae ei eisiau ar gwsmer, byddwn yn gwneud pob ymdrech i gael yr eitem erbyn yr ymweliad nesaf.




## Gwasanaethau i bobl sy'n gaeth i'r tŷ

Rydym hefyd yn rhedeg gwasanaeth am ddim sy'n dod â'r llyfrgell yn syth at stepen drws y rhai sy'n analluog oherwydd salwch, llesgedd neu anabledd ac nad ydynt bellach yn gallu teithio i'w llyfrgell leol.

Mae'r gwasanaeth yn galw bob tair wythnos i ddosbarthu a chasglu llyfrau cyffredin/print bras a/neu lyfrau ar dâp.

## Gweithgareddau a Digwyddiadau sy'n Annog Darllen

Darperir gweithgareddau i gefnogi plant ac oedolion i fwynhau darllen trwy'r hybiau a'r llyfrgelloedd, gan gynnwys grwpiau darllen, rhaglenni ymweliadau ysgol, amser stori/amserau rhigwm a gweithgareddau plant. Rydym hefyd yn darparu gweithgareddau diwylliannol a threftadaeth, gan gynnwys gŵyl lenyddol, yn yr hybiau.  Ymdrinnir yn fanylach â'r gweithgareddau a'r digwyddiadau sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer plant mewn pennod arall o'r strategaeth hon.

### Grwpiau Darllen

Mae grwpiau darllen yn cynnig cyfle i bobl ddod at ei gilydd, darllen ar goedd a mwynhau profiad o ddarllen ar y cyd.  Rydym yn helpu cwsmeriaid i ddod o hyd i grwpiau darllen sy'n diwallu eu hanghenion, ac yn gallu hysbysebu'r grwpiau i aelodau newydd. Gallwn gynorthwyo ymhellach trwy argymell llyfrau i'w darllen a thrwy ddarparu hyd at 15 copi o'r un llyfr, y gall y grŵp eu cadw am hyd at 6 wythnos.

**Dywedodd 49% o'r bobl a gwblhaodd ein harolwg fod ganddynt ddiddordeb mewn mynychu Grwpiau Darllen a Chlybiau Llyfrau**

| | BYDDWN YN: |
|---|---|
| | • Cefnogi mwy o grwpiau darllen mewn hybiau, llyfrgelloedd a'r gymuned ehangach, gan gynnwys clybiau llyfrau i bobl ifanc a theuluoedd. |

### Digwyddiadau Llenyddol




Mae digwyddiadau llenyddol yn rhoi cyfle i gwrdd ag awduron sy'n helpu darllenwyr i ddatblygu dealltwriaeth o brosesau creadigol, gan ddyfnhau gwerthfawrogiad o lenyddiaeth ac ysbrydoli darllenwyr i chwilio am lyfrau newydd.

Gan adeiladu ar lwyddiant grwpiau darllen llyfrau ditectif, datblygwyd Gŵyl Straeon Ditectif a Choffi flynyddol sy'n dod ag awduron a chynulleidfaoedd at ei gilydd mewn hybiau a llyfrgelloedd ar draws y ddinas, gan hybu'r gwaith o ysgrifennu straeon ditectif i ddarllenwyr newydd a rhai sydd eisoes yn eu mwynhau.

**Dwedodd dros hanner y bobl a gwblhaodd ein harolwg fod ganddynt ddiddordeb mewn digwyddiadau Cwrdd â'r Awdur**

| | BYDDWN YN: |
|---|---|
| | • Parhau i ddarparu digwyddiadau llenyddol rheolaidd am ddim sy'n ysbrydoli ac yn annog darllen, megis gweithdai ysgrifennu creadigol a digwyddiadau cwrdd â'r awdur. |
| | • • Gweithio gyda grwpiau cymunedol i ddatblygu rhaglenni digwyddiadau ychwanegol yn yr hybiau a'r llyfrgelloedd, y tu allan i'n horiau agor craidd, gan sicrhau mynediad i bawb. |

# Cefnogi Ein Plant a'n Pobl Ifanc

Mae'r hybiau a'r llyfrgelloedd wedi'u lleoli'n strategol yng nghymunedau Caerdydd, ac maent mewn sefyllfa dda i gefnogi ein plant a'n pobl ifanc. Nod y Gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd yw cyfrannu at gyfleoedd addysgol, diwylliannol a hamdden drwy roi profiadau cadarnhaol i blant a theuluoedd trwy ddarparu gweithgareddau, digwyddiadau a chyfleoedd i blant gael cyrchu llyfrau.

## Cyfraniad y Gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd at Gaerdydd sy'n Dda i Blant




Mae'r ymrwymiadau canlynol o Strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant yn cael eu cyflawni trwy ein Gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd:

- Cael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth – bydd gan blant a phobl ifanc yr hawl agored ac am ddim i gyrchu gwybodaeth, deunyddiau a rhaglenni a fydd ar gael i bawb.
- Cefnogi llesiant teuluoedd – bydd dysgu teuluol yn cael ei gefnogi, gan helpu i leihau arwahanrwydd cymdeithasol a gwella llesiant.
- Rhoi cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ar gyfer bywyd, yn barod ar gyfer annibyniaeth a chyflogaeth yn y dyfodol – bydd llythrennedd plant yn cael ei hyrwyddo a bydd pobl ifanc yn cael eu cefnogi i mewn i waith, hyfforddiant neu addysg bellach.

## Cefnogi ac Annog Llythrennedd

Mae darllen a llythrennedd yn sgiliau bywyd sylfaenol, ac mae gan ein hybiau a'n llyfrgelloedd rôl bwysig i'w chwarae wrth roi cyfle i blant a phobl ifanc gael mynediad i lyfrau ac annog cariad at ddarllen.




### Mentrau Cenedlaethol

Trwy gydol y flwyddyn mae'r hybiau a'r llyfrgelloedd yn cynnal rhaglen o ddigwyddiadau sy'n cefnogi ac yn annog llythrennedd plant. Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn mynd ati i hyrwyddo'r fenter Cymru gyfan '**Pob Plentyn yn Aelod o Lyfrgell'** trwy ymweliadau ag ysgolion, sesiynau cynefino â'r Llyfrgell a darparu cerdyn llyfrgell i bob plentyn ym mlwyddyn 4 yn yr ysgol gynradd.

Mae **Her Ddarllen yr Haf** yn cael ei hyrwyddo ym mhob ysgol iau cyn gwyliau'r haf, gyda digwyddiadau a gweithgareddau thematig i gefnogi plant oedran ysgol i gynnal eu sgiliau llythrennedd yn ystod gwyliau'r ysgol. Yn ystod 2018/19 cymerodd 7,409 o blant ran ac fe gwblhaodd 4,818 yr her.

| BYDDWN YN: |
|---|
| • Gwella llythrennedd trwy annog cynifer o blant â phosibl i gymryd rhan yn Her Ddarllen yr Haf, gan weithio'n agos gyda rhieni ac ysgolion i hyrwyddo darllen er pleser. |

## Dechrau Da

Mae Dechrau Da yng Nghymru yn gynllun cenedlaethol rhoi llyfrau  wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, a gaiff ei ddarparu gan awdurdodau llyfrgelloedd mewn partneriaeth ag Ymwelwyr Iechyd lleol. Trwy Dechrau Da, ein nod yw annog ac ymgysylltu â phlant cyn-ysgol i ddarllen a datblygu cariad at lyfrau o'u misoedd cynharaf.

Mae pob plentyn yn cael 2 becyn llyfrau gan ei Ymwelydd Iechyd yn ystod yr archwiliadau iechyd yn 6 ac yn 27 mis oed. Mae'r pecynnau'n cynnwys llyfr Cymraeg a Saesneg difyr, taflen rhigymau a llyfrynnau gyda syniadau i'w rhannu am ddarllen a rhigymau. Felly, anogir teuluoedd i ymweld â'u llyfrgell, am y tro cyntaf efallai, a dechrau benthyca llyfrau'n rheolaidd ar gyfer eu plant ifanc.



## Amser Stori ac Amser Rhigwm

Mae Amser Stori ac Amser Rhigwm yn sesiynau am ddim a gynhelir yn ein hybiau a’n llyfrgelloedd sy'n rhoi cyfle i rieni a gofalwyr fwynhau caneuon, straeon a rhigymau gyda'u plant cyn-ysgol mewn amgylchedd hamddenol a chroesawgar.

Mae'r cynllun Bookcrawl ar gyfer plant dan 4 oed hefyd yn cael ei ddarparu ym mhob hyb, gan gynnig cymhelliad llawn hwyl i annog ymweliadau rheolaidd â llyfrgelloedd.

Bydd hyfforddiant staff pwrpasol yn ategu’r sesiynau hyn er mwyn sicrhau ansawdd cyson ym mhob hyb a llyfrgell.

| BYDDWN YN: |
|---|
| • Darparu sesiynau o ansawdd cyson i blant cyn oed ysgol ar draws ein holl leoliadau, boed drwy amserau rhigwm neu amser stori. |

Mae digwyddiadau eraill yn cynnwys Diwrnod y Llyfr, Wythnos Dechrau Da, Diwrnod Roald Dahl a Noson Harry Potter. Caiff y rhain eu darparu ar y cyd â gweithgareddau rheolaidd yn seiliedig ar anghenion cymunedol, gan gynnwys grwpiau darllen plant, clybiau gwaith cartref, clybiau Lego, clybiau gemau, clybiau chwaraeon, clybiau codio a chrefftau.

**Dangosodd yr arolwg defnyddwyr plant fod pobl ifanc eisiau gweld cynnydd mewn gweithgareddau fel cwisiau a dangosiadau ffilm yn eu hybiau a'u llyfrgelloedd.**

## Cymryd Rhan mewn Chwaraeon



Mae hybiau a llyfrgelloedd hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Chwaraeon Caerdydd i ddarparu gweithgareddau am ddim i blant oed ysgol i hyrwyddo llythrennedd corfforol. Cynhelir y sesiynau hyn yn hybiau Trelái, Grangetown, Llanrhymni, Tredelerch a Llaneirwg.

## Cefnogi ein Hysgolion

Byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion Caerdydd i gefnogi agwedd darllen er pleser y cwricwlwm a datblygu gwybodaeth a sgiliau eu disgyblion trwy gefnogi ymweliadau dosbarth â'r hybiau, darparu rhaglenni sgiliau llyfrgell, rhoi mynediad at awduron a chefnogi pynciau'r ystafell ddosbarth gyda stoc berthnasol.

## Clybiau Gwaith Cartref

Er mwyn cynorthwyo ymhellach gyda chyfleoedd dysgu, cynhelir amrywiaeth o sesiynau ar ôl ysgol a chlybiau gwaith cartref yn y llyfrgelloedd a'r hybiau.

Mae nifer o'r clybiau'n cael eu rhedeg gyda phartneriaid fel Charity ACE (‘All Communities Engaged’), Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Fitzalan ac yn cynnal sesiynau penodol yn seiliedig ar anghenion lleol, gyda'r hybiau a'r llyfrgelloedd yn darparu'r cyfleusterau a'r adnoddau gofynnol. Ceir cynlluniau i sefydlu clybiau gwaith cartref yn llyfrgelloedd gogledd y ddinas, ar y cyd â gwasanaeth gwirfoddol myfyrwyr SV Caerdydd.

## Cefnogi Ein Teuluoedd



Mae sesiynau ymgysylltu â rhieni eisoes yn cael eu cynnal i gefnogi dysgu fel teulu, gan gynnwys cefnogi rhieni sydd â Saesneg fel ail iaith a'r rhai sydd newydd gyrraedd y ddinas. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach mewn partneriaeth ag eraill gan gynnwys Trinity, Displaced People in Action a Chyngor Ffoaduriaid Cymru i ddarparu sesiynau wedi'u targedu yn yr hybiau, gan gefnogi dull ‘Ffocws ar y Teulu’ y Cyngor. Yn ogystal â meithrin hoffter at lyfrau mewn plant ifanc, mae digwyddiadau plant yn rhoi cyfle i rieni gwrdd â’i gilydd a rhannu profiadau, lleihau arwahanrwydd cymdeithasol, chwalu rhwystrau i ddarllen ac ehangu mynediad i’r gwasanaethau hanfodol eraill a ddarperir yn yr hybiau. Cyflwynir Amserau Stori a Rhigwm Dechrau Da arbennig hefyd ledled Caerdydd mewn amrywiaeth o leoliadau megis ardaloedd Dechrau'n Deg ac ar gyfer teuluoedd agored i niwed mewn hosteli, canolfannau ceiswyr lloches a Charchar Caerdydd. Mae sesiynau allgymorth yn cynnwys teuluoedd â phlant sydd ag anghenion ychwanegol, gan helpu i leihau eu harwahanrwydd cymdeithasol a gwella eu lles yn gyffredinol.

## Gwasanaeth Cynhwysol

Bydd y gwasanaeth i blant yn gynhwysol i bawb, gan gynnwys y rhai sydd wedu eu heffeithio gan awtistiaeth a nam ar eu golwg. Trwy ddefnyddio ein hadnoddau a gweithio mewn partneriaeth rydym yn cynnig amser stori synhwyraidd ac amser stori â disgrifiad sain. Mae gwaith ar y gweill eisoes gyda Chymdeithas Dyslecsia Prydain i wneud Gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn gwbl hygyrch i oedolion a phlant y mae dyslecsia'n effeithio arnynt.

| **BYDDWN YN:** |
|---|
| •Gweithio gyda rhieni, yn enwedig o gefndiroedd difreintiedig, er mwyn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant. |
| •Cynnig digwyddiadau ar gyfer plant sy'n hygyrch i bawb a sicrhau bod ein rhaglen yn cynnwys gweithgareddau ar gyfer plant sydd â heriau ychwanegol. |
| •Cynnig amrywiaeth o nosweithiau thema ar gyfer plant ac oedolion ifanc e.e. digwyddiadau Harry Potter, Roald Dahl. |
| •Ehangu clybiau gwaith cartref ar draws hybiau i gefnogi plant a phobl ifanc. |

## Cefnogi Pobl Ifanc

Mae amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau eraill yn ein hybiau a'n llyfrgelloedd wedi'u cynllunio'n benodol i gefnogi pobl ifanc. Mae'r gwasanaethau ieuenctid wedi'u cydleoli yn y Powerhouse, Llanedern a Llaneirwg ac mae ein Hyb ieuenctid cyntaf yn cael ei ddatblygu ym Mhafiliwn Butetown.


**Butetown Youth Hub**



Argraff artist o'r tu mewn i Hyb Ieuenctid Pafiliwn Butetown

Trosglwyddwyd Pafiliwn Butetown i raglen Hybiau'r Cyngor i fynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc Butetown am weithgareddau cadarnhaol yn yr ardal leol. Ceir amserlen amrywiol ar hyn o bryd ar gyfer pum noson yr wythnos gan gynnwys sesiwn ddawns a cherddoriaeth Jukebox, grwpiau podledu, sesiynau ffitrwydd dawns Turn'd Up, a bocsio a hyfforddiant cylchol i ferched. Trwy weithio gyda phartneriaid, cynigir gwasanaethau ychwanegol gan gynnwys clybiau swyddi, dosbarthiadau TGCh ac iaith, sesiynau chwaraeon, a sesiynau coginio. Ym mis Gorffennaf 2018 cynhaliwyd adolygiad ac ymgynghoriad i ailgynllunio cynllun yr adeilad ar gyfer ymagwedd fwy hamddenol, aml-ddefnydd dan yr unto a fu'n llwyddiannus mewn Hybiau Cymunedol eraill. Y nod yw parhau ac ehangu gwasanaethau craidd wrth weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o sefydliadau a grwpiau gwirfoddol i ddarparu ystod ehangach o weithgareddau a gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc, gan ddefnyddio eu barn i lywio darpariaeth.

**Hyb Ieuenctid Canol y Ddinas** Bydd Hyb Ieuenctid arfaethedig canol y ddinas yn dod ag amrywiaeth eang o wasanaethau awdurdodau lleol a phartneriaid at ei gilydd i ffurfio Hyb Atal Integredig ar gyfer pobl ifanc:




Bydd gwasanaethau'n cydweithio i ddarparu cymorth sy'n seiliedig ar y person ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd mewn meysydd fel perthnasoedd teuluol; tai; hyfforddiant cyflogaeth a dechrau busnes; byw'n annibynnol a sgiliau bywyd; iechyd meddwl; a gadael gofal.

| | BYDDWN YN: |
|---|---|
| | • Darparu gwasanaethau cynaliadwy i bobl ifanc, gan ddefnyddio egwyddorion yr hybiau i gyfuno'r ddarpariaeth bresennol a'r defnydd o wirfoddolwyr i estyn oriau agor. |

**Ysbrydoli i Weithio**

Wedi'u lleoli o fewn y Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith, mae prosiect Ysbrydoli i Weithio yn rhaglen wirfoddol sy'n helpu pobl ifanc y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i ddod o hyd i waith neu symud ymlaen i hyfforddiant neu addysg bellach.

Neilltuir mentor ieuenctid i bob person ifanc a all helpu gydag ysgrifennu CV, technegau cyfweld, meithrin hyder a chymhelliant, ceisiadau am swyddi a chwilio am waith.

Mae'r prosiect hefyd yn gallu talu am hyfforddiant, helpu gyda chostau gofal plant, costau teithio, dillad cyfweliad a gwersi gyrru a helpu i gael gwared ar y rhwystrau terfynol i gyflogaeth.

## Ffair Yrfaoedd Butetown



Cynlluniwyd Ffair Yrfaoedd Butetown a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2019 i alluogi myfyrwyr i ddod o hyd i lwybrau posibl ar gyfer addysg ôl-16, hyfforddiant a chyflogaeth a dangos iddynt ym mha le y gallent gael gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd am syniadau ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol.

Roedd y ffair yn gyfle i'r rhai sy'n chwilio am waith gael syniad gwell o'r nifer mawr o yrfaoedd sydd ar gael yn y farchnad lafur. Roedd ceiswyr gwaith yn gallu cael cip gwerthfawr i gylchoedd recriwtio ar gyfer gwahanol ddiwydiannau a'r cymwysterau angenrheidiol ar gyfer swyddi y llogir pobl yn aml ar eu cyfer, a siarad ag arbenigwyr i ddarganfod sut i gyrraedd y nodau gyrfaol hyn.

## Hyb y Llyfrgell Ganolog


Rydym yn bwriadu creu ardal newydd yn Hyb y Llyfrgell Ganolog, yn arbennig ar gyfer pobl ifanc, a fydd yn diwallu eu hanghenion a'u dyheadau.

Ymgynghorwyd â phobl ifanc ynghylch yr hyn hoffent ei weld yn yr ardal hon trwy ein harolwg cleientiaid. Dywedodd dwy ran o dair o'r ymatebwyr y byddent yn hoffi ardal lle gallent wneud gwaith cartref, ac roedd dros hanner eisiau seddau cyfforddus. Roedd diddordeb brwd hefyd mewn technolegau digidol megis man gemau a sgriniau i'w defnyddio ar gyfer dylunio graffig.

Rydym wedi ystyried y safbwyntiau hyn a bydd gan yr ardal newydd le tawel i astudio, seddau cyfforddus ac amrywiaeth o dechnolegau newydd.

| | BYDDWN YN: |
|---|---|
| | • Gwella ein hadran i bobl ifanc yn Hyb y Llyfrgell Ganolog drwy ymgynghori â phobl ifanc i sicrhau bod eu dyheadau a'u hanghenion digidol yn cael eu bodloni. |

# Cynnig Gwybodaeth a Chyngor



Mae'r Hybiau’n siopau dan yr unto ar gyfer yr holl wasanaethau gwybodaeth a chyngor, gan gyfuno gwasanaethau'r Cyngor a'u partneriaid mewn un adeilad er mwyn darparu gwasanaeth cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

## Gwybodaeth a Chyngor Cyffredinol

Mae hybiau’n darparu ystod eang o gyngor sy'n amrywio yn ôl yr angen lleol. Mae gwybodaeth a chyngor safonol ynglŷn â gwasanaethau'r Cyngor ar gael ym mhob Hyb gan gynnwys derbyniadau i ysgolion, gwastraff swmpus, tocynnau bws a’r dreth gyngor. Lle bo hynny'n briodol i'r ardal, mae swyddogion hybiau hefyd yn cynnig cyngor ar dai, budd-daliadau a hawlio grantiau a gostyngiadau, a gall swyddogion gyfeirio at amrywiaeth eang o wasanaethau eraill y cyngor a gwasanaethau partner.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, dim ond ar-lein y gellir cael gafael ar nifer gynyddol o wasanaethau. Mae'r hybiau'n cynnig hunanwasanaeth â chymorth, gan annog y rhai sy'n gallu defnyddio darpariaeth ar-lein i wneud hynny, a darparu cymorth wyneb yn wyneb i'r rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

## Cyngor a Chymorth Arbenigol

Lle bo'n briodol, darperir cyngor a chymorth arbenigol yn yr Hybiau hefyd, gan gynnwys:

### Cyngor Ariannol

Mae Tîm Cyngor Ariannol Cyngor Caerdydd yn rhoi cyngor a chymorth i gwsmeriaid a all fod ar ei hôl hi gyda thaliadau rhent, y dreth gyngor neu filiau cyfleustodau. Mae'r tîm yn helpu cwsmeriaid i gyllidebu a hefyd i wneud y mwyaf o'u hincwm drwy wirio hawliadau i fudd-daliadau a'u helpu i wneud hawliadau, ac apelio yn erbyn penderfyniadau ynghylch budd-daliadau. Maent hefyd yn rhoi cymorth i gael grantiau, gostyngiadau a chyrchu cynlluniau tlodi tanwydd, yn helpu i agor cyfrifon banc ac yn cynnig talebau banc bwyd.

Mae'r tîm yn gweithio yn Hyb y Llyfrgell Ganolog ond maent hefyd yn gweithredu tîm allgymorth sy'n rhoi cymorth i bobl mewn amrywiaeth o hybiau eraill yn ogystal â llety â chymorth a banciau bwyd ledled y ddinas. Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019:

**Ymwelodd 17,547 o gwsmeriaid â'r Tîm Cyngor Ariannol**

**Gwnaed arbedion gwerth £725,466**

**Hawliwyd mwy na £16 miliwn mewn budd-daliadau**

### Llinell Gynghori

Mae'r Llinell Gynghori dros y ffôn ar gael yn Hyb y Llyfrgell Ganolog. Mae gan staff sawl sgil a gallant roi gwybodaeth a chanllawiau ynglŷn â materion sy’n ymwneud ag arian a dyled, cymorth i mewn i waith a chyrsiau hyfforddi sydd ar gael.

**Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019, derbyniwyd 5,597 o alwadau.**

### Gwasanaeth Cynghori Caerdydd

Mae Gwasanaeth Cynghori Caerdydd yn cynnwys Cyngor ar Bopeth a Speakeasy Advice. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ariannu gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru i ddarparu cyngor annibynnol, cyfrinachol a diduedd ar nifer o faterion gan gynnwys budd-daliadau lles, dyled, tai, perthnasoedd teuluol, cyfraith cyflogaeth, mewnfudo, gwahaniaethu a materion defnyddwyr. Darperir y gwasanaeth yn Hyb y Llyfrgell Ganolog ac 8 Hyb arall ar draws y ddinas. Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019:

**Cynorthwywyd 17,804 o gwsmeriaid gan Wasanaeth Cynghori Caerdydd**

**Rhoddwyd dros 25,909 awr o gyngor**

### Help i Gyn-aelodau o’r Lluoedd Arfog

Mae tîm arbenigol bychan, wedi'i ariannu gan y Cyfamod Cymunedol, yn helpu i gefnogi cyn-aelodau o’r lluoedd arfog. Gall y cymorth hwn amrywio o gyngor ar dai a dyledion i gymorth i mewn i waith. Mae'r tîm yn gweithio o Hyb y Llyfrgell Ganolog ond mae'n darparu cymorth allgymorth ar sail amserlen. Mae'r tîm yn gweithio mewn partneriaeth agos iawn â sefydliadau eraill, gan gynnwys y Lleng Brydeinig a ChangeStep. Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019:

**Cynorthwywyd 422 o gwsmeriaid**

**Hawliwyd £427,359 o fudd-daliadau**

**Talwyd £21,848 mewn taliadau untro**

Nod digwyddiadau fel y digwyddiad 'Diolch i'r Lluoedd Arfog' a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2018 yn Hyb y Llyfrgell Ganolog yw dod ag elusennau ac adrannau'r Cyngor ynghyd i godi ymwybyddiaeth o’r cymorth sydd ar gael i gyn-aelodau o’r lluoedd arfog.

| **BYDDWN YN:** |
|---|
| • Sicrhau y darperir cyngor o ansawdd uchel trwy gydymffurfio â'r Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor. |
| • Parhau i gefnogi'r rhai y mae Diwygiadau Lles yn effeithio arnynt, eiriol dros gwsmeriaid a hyfforddi staff ynghylch y newidiadau o ddulliau papur i’r rhai digidol. |

## Cyngor ar Ddigartrefedd a Thai

Mae’r Tîm Datrysiadau Tai yn darparu gwasanaethau ym mhob Hyb Cymunedol a Hyb y Llyfrgell Ganolog, gan roi cyngor manwl i ymgeiswyr sydd am ymuno â Rhestr Aros Tai Caerdydd a chynghori ar opsiynau tai eraill. Mae'r tîm hefyd yn cynorthwyo cleientiaid gyda'u cynlluniau gweithredu i’r digartref, yn dilyn asesiad digartref.

Cynhelir Gweithdai Canfod Cartref i helpu a chynorthwyo pobl sydd angen cartref i chwilio am lety yn y sector rhent preifat yng Nghaerdydd a'r cyffiniau.

Mae'r tîm hefyd yn rhoi cyngor i denantiaid y cyngor pan fyddant yn llofnodi am eiddo, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth a chymorth sydd eu hangen arnynt i gynnal eu tenantiaeth ganddynt.

Mae cynlluniau peilot ar waith i sicrhau bod gwasanaethau digartrefedd ar gael yn haws mewn Hybiau fel bod modd gweithredu cyn gynted â phosibl er mwyn atal aelwydydd rhag colli eu cartrefi. Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019:

**Cwblhawyd 3,500 o gyfweliadau Datrysiadau Tai**

**Aeth 954 o gleientiaid i’r Gweithdai Canfod Cartref**

**Astudiaeth Achos o Weithdy Canfod Cartref**


Aeth Mrs J i’r Gweithdy Canfod Cartref er mwyn chwilio am lety rhent preifat. Daeth o hyd i sawl eiddo a chafodd gymorth i gysylltu ag asiantau gosod i ymweld â nhw. Fodd bynnag, gan ei bod yn weithiwr rhan-amser sy’n hawlio budd-daliadau, roedd yr asiantau gosod yn gyndyn o'i derbyn. Awgrymodd y Swyddog Datrysiadau Tai y dylai Mrs J fynd yn bersonol i swyddfa’r asiant gosod i gyflwyno ei hun ac egluro ei sefyllfa yn fanylach. Derbyniodd Mrs J y cyngor hwn ac yn dilyn ei hymweliad roedd hi'n gallu trefnu i ymweld ag eiddo ac fe'i derbyniwyd wedyn ar ei gyfer.

Roedd Mrs J yn fodlon iawn ar y cymorth a'r cyngor a roddwyd gan y Swyddog Datrysiadau Tai. Roedd hi ar fin rhoi'r gorau i chwilio am lety rhent preifat ond mae bellach yn byw mewn eiddo lle mae'n hapus iawn.

**BYDDWN YN:**

- Parhau i wella ac ehangu’r cyngor ar dai a digartrefedd sydd ar gael yn yr hybiau.

## Hyrwyddo Cynhwysiant Digidol a Datblygu Sgiliau Digidol



Mae'n hanfodol bod dinasyddion yn cael eu galluogi'n ddigidol gan fod cymaint o wasanaethau bellach yn cael eu darparu ar-lein yn unig.

Mae Cymunedau Digidol Cymru wedi rhoi hyfforddiant i bob aelod o staff yr hybiau a'r llyfrgelloedd er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus wrth gynorthwyo cwsmeriaid gydag ymholiadau ar-lein.

Mae Swyddogion Cynhwysiant Digidol hefyd yn gweithio yn yr hybiau ac mewn lleoliadau eraill ar draws y ddinas i helpu gydag unrhyw gymorth ar-lein sydd ei angen.

**Gwirfoddolwyr Digidol**

Mae dros 80 o wirfoddolwyr digidol yn cefnogi swyddogion y Cyngor yn yr hybiau. Maent yn darparu cymorth un i un, gan gynorthwyo cwsmeriaid i'w galluogi i fod yn fwy digidol.

Mae'r Tîm Dysgu Oedolion hefyd yn darparu sesiynau hyfforddi i ddysgu sgiliau cyfrifiadurol i breswylwyr Caerdydd. Mae'r cyrsiau hyn yn cynnwys Sgiliau Cyflogadwyedd Digidol, Sgiliau TGCh ar gyfer Gwaith a TGCh ar gyfer Sgiliau Digidol Bywyd.

Yn ogystal â chyrsiau mwy traddodiadol, mae gwasanaethau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd sy'n adlewyrchu'r newid yn y tirlun digidol. Bydd y rhain yn cynnwys cyrsiau codio HTML/CSS, rhaglennu roboteg Microbit, dylunio gwefannau, dylunio graffeg ac animeiddio fesul cam.

**Gwella ein darpariaeth o wasanaethau digidol**

Bydd Hyb y Llyfrgell Ganolog yn cyflwyno gorsafoedd sganio yn 2019 lle gall y cwsmeriaid eu hunain sganio'r dogfennau sydd eu hangen arnynt ar gyfer hawliadau budd-daliadau, gyda staff ar gael i'w cefnogi os bydd angen. Bydd hyn yn lleihau'r aros ac os bydd yn llwyddiannus, caiff ei gyflwyno i hybiau eraill.

**Dywedodd nifer sylweddol o bobl a gwblhaodd ein harolwg fod ganddynt ddiddordeb mewn cael mynediad i wasanaethau llyfrgell drwy ap symudol ac argraffu drwy'r cwmwl yn uniongyrchol o ddyfais ddigidol.**

| BYDDWN YN: |
| --- |
| • Gweithio mewn partneriaeth â Cymunedau Digidol Cymru a mentrau Cynhwysiant Digidol eraill i helpu pobl i fynd ar-lein. |
| • Darparu mwy o gyrsiau digidol modern ledled y ddinas i adlewyrchu'r dirwedd ddigidol sy'n newid yn gyflym, fel apps, ffonau, cyfrifiaduron llechen, rhith-wirionedd, a hyfforddiant cadw'n ddiogel ar-lein. |
| • Hyrwyddo cynhwysiant digidol trwy sefydlu cynllun benthyca llechi ar gyfer y rheini nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd, gan gynnwys y gwasanaethau teithiol a'r gwasanaethau i bobl sy'n gaeth i'r tŷ. |
| • Cynyddu'r gwasanaethau digidol sydd ar gael yn yr hybiau i gynnwys app adnewyddu llyfrau, gorsafoedd sganio ac argraffu i'r cwmwl yn uniongyrchol o ffonau clyfar. |
| • Cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd ledled Caerdydd, gan hysbysebu'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl fanteisio ar dechnoleg. |

# Helpu Pobl i Mewn i Waith ac Annog Dysgu

Mae Caerdydd yn ddinas fywiog a ffyniannus ac mae'r gyfradd ddiweithdra ar hyn o bryd yn isel, sef 6.1%, ond mae nifer y rhai sy'n ddi-waith yn amrywio'n sylweddol ar draws y ddinas.  Gall bod yn ddi-waith am gyfnod hir gael effaith sylweddol ar lesiant pobl. Ym mis Mawrth 2018, roedd 1,210 o bobl yng Nghaerdydd wedi bod yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith (LCG neu JSA) am dros ddeuddeg mis, bron i draean o'r holl hawlwyr LCG yng Nghaerdydd.

## Ymagwedd Gydlynol

Mae pob un o staff ein hybiau, beth bynnag y bo'u rôl, yn gwbl ymwybodol o'r cymorth i mewn i waith a'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael a gallant wneud atgyfeiriadau priodol. Mae cydleoli gwasanaethau o fewn yr hybiau'n gwella hygyrchedd ar gyfer cwsmeriaid ac yn cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau.

## Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith



Mae Gwasanaeth i Mewn i Waith y Cyngor yn elfen allweddol o'n darpariaeth hybiau. Mae'r tîm yn darparu cymorth cyflogaeth i unigolion sy'n mynd ati i chwilio am waith neu sy'n ceisio uwchsgilio, a hynny mewn ffordd hyblyg wedi'i theilwra i'r unigolyn. Gall y gwasanaeth helpu ceiswyr gwaith i gynllunio llwybr i gyflogaeth neu i gyrchu cyrsiau hyfforddi sy'n datblygu eu sgiliau.

Mae clybiau swyddi, a ddarperir ledled y ddinas, yn cynorthwyo'r rhai sydd angen cymorth i greu neu ddiweddaru eu CV neu i chwilio am swydd. Rhoddir cymorth hefyd i'r rhai sydd angen hawlio neu gynnal eu Credyd Cynhwysol ar-lein.

Mae gan y Gwasanaeth Cynghori i Mewn i Waith hefyd fentoriaid oedolion ac ieuenctid arbenigol sy'n cynorthwyo rhai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed i ddychwelyd i'r gwaith. Nid yw rhai o'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth erioed wedi gweithio, neu nid ydynt wedi gweithio ers amser hir.  Mae mentoriaid arbenigol ar gael hefyd i gynorthwyo rhai o'n dinasyddion mwyaf agored i niwed, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, ffoaduriaid a phobl sy'n byw mewn hosteli a mathau eraill o lety dros dro. Rhwng

**Derbyniodd 45,497 o gwsmeriaid gyngor i mewn i waith**

**Cynorthwywyd 2,987 o gwsmeriaid gyda'u hawliad am Gredyd Cynhwysol**

**Cafodd 787 o gwsmeriaid eu gwirio fel rhai a oedd yn cael cymorth i mewn i waith**

**Gwirfoddolwyr**

Mae gwirfoddoli yn allweddol i'r gwasanaeth, er mwyn ein helpu i ddarparu ar gyfer nifer mwy o gleientiaid a hefyd fel llwybr i waith. Ar hyn o bryd mae 122 o wirfoddolwyr yn gweithio yn yr hybiau a'r llyfrgelloedd. Mae 70% o'r rhain yn bwriadu dychwelyd i'r gwaith. Mae 61% o'n gwirfoddolwyr yn gadael gwirfoddoli i ddychwelyd i'r gwaith ac mae 34 o gyn-wirfoddolwyr bellach yn gweithio i Gyngor Caerdydd.

Trwy roi sgiliau a geirdaon i'n gwirfoddolwyr, gallwn eu helpu i lwyddo i ddod o hyd i waith. Mae gwefan Gwirfoddoli Caerdydd yn hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli lleol ar draws Caerdydd ac yn cael ei diweddaru'n rheolaidd gyda chyfleoedd newydd a chyffrous yn y ddinas.

**BYDDWN YN:**

- Hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli drwy Borth Gwirfoddoli Caerdydd, rhoi lleoliad gwirfoddoli ystyrlon i bob gwirfoddolwr a neilltuo mentor i bob person yn y gweithle, gan wella eu sgiliau i'w gwneud yn fwy parod ar gyfer gwaith.

**Astudiaeth Achos o Broject Cymorth Cyflogaeth i Ffoaduriaid**

Nod y Rhaglen Cymorth Cyflogaeth i Ffoaduriaid yw cefnogi teuluoedd o Syria a ffoaduriaid eraill i ailsefydlu. Cyfeiriwyd Mr a Mrs S at y gwasanaeth gan y Swyddfa Gartref, trwy'r Rhaglen Ailsefydlu Syriaid. Cyn ffoi rhag y gwrthdaro yn Syria roedd Mr S yn gweithio fel peiriannydd mecanyddol a chyflogwyd Mrs S fel athrawes ysgol gynradd.

Cafodd Mr S ddosbarthiadau ESOL fel ffordd o wella ei Saesneg, ond roedd hefyd yn ffordd o gwrdd â phobl eraill. Cafodd gymorth i lunio ei CV ac wrth chwilio am swydd i roi gobaith iddo y byddai'n cael swydd ac i fagu ei hyder.

Yn dilyn ymgysylltu parhaus a sesiynau mentora mewn lleoliad cyfleus i Mr a Mrs S yn Hyb y Llyfrgell Ganolog, roedd Mr S yn dangos gwelliant sylweddol. Roedd ei hyder wedi codi i lefel lle'r oedd y Saesneg wedi cymryd lle Arabeg fel ei ffordd o ymgysylltu ac roedd yn teimlo'n barod i ddechrau chwilio am waith. Cefnogwyd Mrs S i ddod o hyd i gyfle i wirfoddoli fel cynorthwy-ydd addysgu ac mae bellach yn gwirfoddoli 3 diwrnod yr wythnos, gan ennill profiad tuag at swydd gyflogedig.

**Ffeiriau Swyddi Lleol a Digwyddiadau Cyflogaeth**

Cynhelir ffeiriau swyddi a digwyddiadau cyflogaeth lleol yn yr hybiau ac maent wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda chyflogwyr ac asiantaethau hyfforddi o amrywiaeth eang o sectorau yn eu mynychu gan arwain at lawer o ganlyniadau cyflogaeth a hyfforddiant i'r gymuned leol.

**Ffair Swyddi Caerdydd 2019**

Cynhaliwyd Ffair Swyddi flynyddol Caerdydd ym mis Medi yn Neuadd Dewi Sant mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Cynghori i Mewn i Waith a'r Ganolfan Waith. Roedd cannoedd o swyddi gwag yn cael eu cynnig ar y diwrnod gan dros 40 o gyflogwyr yn rhychwantu amrywiaeth eang o sectorau. Roedd dros 20 o ddarparwyr cyngor a hyfforddiant yn bresennol i gynnig cymorth a gwybodaeth am gyflogaeth. Denodd y digwyddiad dros 700 o geiswyr gwaith a chafodd ganmoliaeth eang yn yr adborth wedi'r digwyddiad.



Mae Swyddogion Ymgysylltu â Chyflogwyr yn gweithio gyda Thîm Datblygu Economaidd y Cyngor er mwyn ymgysylltu â chyflogwyr lleol, yn enwedig y rhai sy'n newydd i'r ddinas. Mae hyn yn cynnwys cynnig pecyn cyn-cyflogaeth am ddim i fusnesau, gan ddarparu ymgeiswyr addas ar gyfer gwaith sydd wedi'u hasesu ymlaen llaw. Maent hefyd yn darparu cyfleusterau cyfweld a lleoliadau canolfannau asesu i

| | **BYDDWN YN:** |
|---|---|
| | • Cynyddu nifer y ffeiriau swyddi lleol sy'n cael eu cynnal mewn hybiau lleol a pharhau i drefnu digwyddiadau recriwtio wedi'u targedu, drwy gydweithio â chyflogwyr lleol, darparwyr hyfforddiant, sefydliadau dysgu a sefydliadau partner allweddol. |
| | • Ehangu’r gwasanaeth recriwtio a gynigir i gyflogwyr, drwy gynnal sgrinio CV a sgrinio cyn asesu, gan ddarparu sesiynau technegau cyfweliad i ddarpar weithwyr, a hysbysebu cyfleoedd drwy gyfryngau cymdeithasol |

**Ariannu**

Mae'r Gwasanaeth i Mewn i Waith yn cael ei ariannu drwy nifer mawr o grantiau sydd wedi cael eu dwyn ynghyd i gynnig gwasanaeth di-dor i'n cwsmeriaid. Mae llawer o'r gwasanaethau hyn yn dibynnu ar gyllid Ewropeaidd sydd i ddod i ben yn 2023. Mae'r gwasanaeth wrthi'n chwilio am gyllid amgen ac ychwanegol ac mae'n edrych ar ddulliau arloesol o gynnal y gwasanaethau pwysig hyn.

| | **BYDDWN YN:** |
|---|---|
| | • Mynd ati i chwilio am gyllid arall a chyllid ychwanegol i gefnogi ein Gwasanaethau i Mewn i Waith. |
| | • Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu cyngor annibynnol ar yrfaoedd i bob oedran mewn hybiau. |

## Cyrsiau Hyfforddiant Sgiliau Gwaith

Mae cyrsiau hyfforddiant sgiliau gwaith yn cael eu cynnal yn yr hybiau ac maent yn cynnwys cymwysterau achrededig megis Hylendid Bwyd, Codi a Chario a Chymorth Cyntaf, sydd i gyd yn gallu helpu pobl i gael y swydd y maent yn ei dymuno. Maent hefyd yn darparu cyrsiau sgiliau meddal megis Gwella Saesneg Sgyrsiol, Technegau Sgiliau Cyfweliad a Magu Hyder.

## Mynediad i Ddysgu

Mae Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Dysgu Oedolion yng Nghymru 2017 yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer dysgu oedolion y dylai Cyngor Caerdydd ganolbwyntio arnynt. Nodwyd y weledigaeth fel a ganlyn:

"Cymru lle mae dysgu wrth wraidd popeth a wnawn; lle caiff cyfranogiad mewn dysgu ei annog a'i wobrwyo; a lle mae gan bobl gyfle cyfartal i ennill y sgiliau bywyd a'r gwaith sydd eu hangen arnynt i ffynnu."  Mae Cyngor Caerdydd yn gwbl ymrwymedig i'r weledigaeth hon ac mae'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu mewn hybiau, llyfrgelloedd a lleoliadau allgymorth eraill.

## Dysgu ar gyfer Gwaith

Mae cyrsiau Dysgu ar gyfer Gwaith yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu hyblyg sydd wedi'u cynllunio i helpu unigolion i gymryd y cam cyntaf yn ôl i ddysgu a'u helpu i fynd ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ychwanegol.

Mae cyrsiau'n canolbwyntio ar y rheini nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth sy'n derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth a'r rheini sy'n 50+ oed nad ydynt mewn cyflogaeth lawn amser.

Mae gweithio mewn partneriaeth agos â Gwasanaethau i Mewn i Waith, y Ganolfan Waith, Dechrau'n Deg a hostelau i'r digartref yn helpu i hyrwyddo'r gwasanaeth ac yn helpu i ddatblygu hyfforddiant pwrpasol.

Datblygir cyrsiau cyn cyflogaeth ar y cyd â chyflogwyr, er enghraifft yn y sector gofal, gan sicrhau cyfweliadau i gleientiaid. Roedd **50%** o'r dysgwyr wedi cael gwaith parhaol ar y cwrs Paratoi i Ofalu cyntaf a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2018.

**Mae'r bartneriaeth hon â chyflogwyr wedi cyfrannu at gynnydd o 37% yn nifer y dysgwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau Dysgu ar gyfer Gwaith yn 2018/19 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.**

## Darparu cyrsiau i'r rhai sydd â'r angen mwyaf

O'r holl ddysgwyr a gwblhaodd gyrsiau rhwng Ebrill 2018 **a** Mawrth 2019**,** roedd **48%** yn dod o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghaerdydd. Mae'r tîm hefyd yn cysylltu â Gwasanaethau Ieuenctid a phartneriaid eraill i sicrhau bod rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn cael eu cefnogi, gan gynnwys y bobl ifanc hynny sy'n derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTA) a ffoaduriaid. Mae cyrsiau hefyd yn cael eu cynnal mewn hosteli i'r digartref.



**Cofrestrodd 6,430 o ddysgwyr yn 2018/19**

**94%**

**Cyfradd basio o 94% ar gyfer cyrsiau achrededig**

**50%**

**Daeth 50% o hyd i gyflogaeth barhaol yn dilyn y cwrs Paratoi i Ofalu**

**48%**

**Roedd 48% o'r dysgwyr o ardaloedd mwyaf difreintiedig Caerdydd**

## Astudiaeth Achos

Mae gan Mrs A dri o blant a than yn ddiweddar iawn roedd hi'n fam gartref. Roedd ganddi ddiddordeb mewn chwilio am waith manwerthu rhan-amser a chafodd gymorth i gwblhau cyrsiau gan gynnwys Gofal Cwsmeriaid, Technegau Cyfweliad a Hyfforddiant Cymorth Cyntaf.

Neilltuwyd mentor i Mrs A a nododd fod angen iddi wella ei sgiliau llythrennedd a TGCh ac fe'i cefnogwyd i sicrhau lle ar gwrs Llythrennedd/TGCh Lefel 2 deg wythnos a fynychodd mewn lleoliad cyfleus o agos i’w chartref.

Cymerodd Mrs A ddiddordeb arbennig mewn cwrs Cynorthwy-ydd Dosbarth Lefel 2 gyda Dysgu Oedolion yn y Gymuned a llwyddodd i sicrhau lleoliad rhan-amser mewn ysgol.

Nododd Mrs A, "***Mae'r lleoliad wedi helpu i fagu fy hyder a'm hunan-werth mewn gwirionedd. Rwy'n gallu rhoi'r holl bethau dwi wedi'u dysgu ar waith. Doeddwn i ddim yn sylweddoli cymaint y byddwn i wrth fy modd yn gweithio gyda phlant yn yr ystafell ddosbarth".*** Cwblhaodd Mrs A ei chwrs Cynorthwy-ydd Dosbarth yn llwyddiannus ac mae bellach yn gweithio'n rhan-amser mewn ysgolion cynradd ar draws Caerdydd.

**Pan ofynnwyd yn ein harolwg am ddigwyddiadau a gweithgareddau yn ein hybiau a'n llyfrgelloedd, dywedodd 40% o ymatebwyr yr hoffent weld mwy o gymorth Sgiliau Sylfaenol ar gael.**

| BYDDWN YN: |
|---|
| • Gweithio gyda phartneriaid i gynnig rhaglen ehangach o gyrsiau sgiliau sylfaenol gan hybiau, i gynnwys y rheini sy'n dysgu Cymraeg neu Saesneg. |

## Gwirfoddolwyr

Mae gwirfoddolwyr yn hanfodol i gefnogi'r Gwasanaeth Dysgu Oedolion, a defnyddir y Porth Gwirfoddolwyr i recriwtio gwirfoddolwyr. Ar hyn o bryd mae **17 o** wirfoddolwyr sy'n cefnogi dysgwyr mewn **27** o ddosbarthiadau.

## Ariannu

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig cwtogi ar yr arian ar gyfer Dysgu Oedolion yn 2020 a fydd yn creu heriau i'r gwasanaeth. Bydd adolygiad llawn o'r gwasanaeth yn cael ei gynnal yn 2019 i liniaru rhywfaint ar effaith hyn ac i ddatblygu Dysgu Oedolion ymhellach fel llwybr clir i mewn i waith.

| BYDDWN YN: |
|---|
| • Cynnal adolygiad llawn o'r Gwasanaeth Dysgu i Oedolion er mwyn lliniaru effaith y toriadau mewn cyllid. |

# Hyrwyddo Iechyd a Llesiant


Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Caerdydd, i hyrwyddo llesiant eu dinasyddion a datblygu gwasanaethau sy'n diogelu hyn ar gyfer y dyfodol. Mae astudiaethau wedi dangos y gall synnwyr cadarnhaol o lesiant ddod â manteision megis disgwyliad oes hirach a gwellhad cynt o salwch.

Wedi'u lleoli yng nghanol ein cymunedau ac yn dod ag ystod o wasanaethau at ei gilydd sy'n seiliedig ar anghenion lleol, mae'r Hybiau Cymunedol a'r Llyfrgelloedd mewn sefyllfa dda i helpu i fynd i'r afael â llawer o'r materion sy'n effeithio ar iechyd a llesiant.

**Asesiad Llesiant o'r Ddinas**

Cynhaliwyd astudiaeth gynhwysfawr o ansawdd bywyd yng Nghaerdydd yn 2017, a ystyriodd sut mae Caerdydd ar hyn o bryd a sut gallai fod yn y dyfodol, er mwyn nodi'r heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r ddinas. Roedd rhai o'r materion a nodwyd yn cynnwys:

**Dros yr 20 mlynedd nesaf rhagwelir y bydd poblogaeth Caerdydd yn tyfu'n gynt na holl ddinasoedd mawr gwledydd Prydai**



**Gallai 72,000 o bobl ychwanegol fod yn byw yma erbyn 2035**

**Cynnydd o 32.4% yn y rhai 85+ oed erbyn 2035**

**Mae nifer y bobl 85 oed yn cynyddu'n llawer cynt na gweddill y boblogaeth**



**Mae dros hanner y boblogaeth yng Nghaerdydd dros eu pwysau**



**Mae 1 o bob 4 plentyn 5 oed yn bwysau nad yw'n iach**

**Bydd 6000 o bobl yn byw â demensia erbyn 2025**

**Bydd 1 o bob 4 oedolyn ac 1 o bob 10 plentyn yn dioddef problemau iechyd meddwl yn ystod ei fywyd/ei bywyd.**

## Gwasanaethu Iechyd a Llesiant

Bellach, darperir gwasanaeth iechyd a llesiant newydd yn ein hybiau.

**Dangosodd ein harolwg fod diddordeb mawr mewn cyngor Iechyd a Llesiant, gyda 57% o ymatebwyr yn dweud yr hoffent weld mwy ohono yn ein hybiau a'n llyfrgelloedd.**

### Darparu Gwybodaeth am Iechyd

Rydym yn cydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r bwrdd iechyd lleol i ddarparu amrywiaeth eang o wybodaeth yn ein hybiau sy'n ceisio atal iechyd gwael.

Darperir llyfrau ac adnoddau iechyd i helpu unigolion i ddeall a rheoli eu hiechyd a gwella eu llesiant drwy ddarllen deunydd hunangymorth. Rydym yn datblygu casgliadau ychwanegol i gefnogi grwpiau wedi'u targedu gan gynnwys gofalwyr a'r rhai sy'n byw â dementia a dyslecsia.

| BYDDWN YN: |
|---|
| • Parhau i gydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu gwybodaeth iechyd yn ein hybiau a'n llyfrgelloedd sy'n diwallu anghenion y gymuned leol. |
| • Parhau i ddatblygu rhagor o gasgliadau ac adnoddau llyfrau sy'n cefnogi iechyd a llesiant grwpiau a dargedir yn ein cymunedau. |

### Rhagnodi Cymdeithasol

Mae'r hybiau'n gweithio gyda'r bwrdd iechyd lleol i gefnogi rhagnodi cymdeithasol. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn gallu atgyfeirio eu cleifion i amrywiaeth o wasanaethau, cyfleoedd cymdeithasol a gwybodaeth iechyd ar gyfer lliniaru arwahanrwydd cymdeithasol.

Wellbeing 4U

Mae Wellbeing 4U yn wasanaeth rhagnodi cymdeithasol yng Nghaerdydd a'r Fro, sy'n cael ei ddarparu gan Dîm Ffynnu United Welsh ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r tîm yn helpu cwsmeriaid i gyflawni newidiadau mewn iechyd a defnyddio'r gwasanaethau mae eu hangen i wneud hynny. Maen nhw'n rhoi help gydag amrywiaeth o faterion iechyd ynghyd â materion cymdeithasol fel tai, dyled a budd-daliadau. Darperir y gwasanaeth mewn nifer o'n hybiau.

**Pan ofynnwyd am y math o wybodaeth am iechyd a llesiant yr hoffent ei weld yn yr hybiau a'r llyfrgell-oedd, y pynciau mwyaf poblogaidd a roddwyd gan ymatebwyr yr arolwg oedd:**

**Gwybodaeth a chyngor ynglŷn â gwasanaethau iechyd sydd ar gael yn eu cymuned (56%)**
**Gwybodaeth i gefnogi pobl hŷn (54%)**
**Gwybodaeth am sut i gefnogi ffyrdd iach o fyw (53%)**
**Gwybodaeth am ddementia (52%)**
**Cyngor a gwybodaeth i ofalwyr (50%)**

**Digwyddiadau Iechyd a Llesiant**

Mae digwyddiadau Iechyd a Llesiant yn cael eu darparu yn yr hybiau i godi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd Iechyd a Llesiant cenedlaethol allweddol. Rydym yn cysylltu â phartneriaid yn y gymuned i sicrhau bod gweithgareddau a digwyddiadau yn yr hybiau a'r llyfrgelloedd yn cael eu hyrwyddo'n llawn. Roedd digwyddiadau'n cynnwys:

- Sesiynau rhoi'r gorau i ysmygu mewn partneriaeth â'r GIG yn Hyb Llanisien.
- Sesiynau galw heibio yn Hyb Trelái a Chaerau a Hyb STAR gan Dîm Gofalwyr y Gwasanaethau Oedolion.
- Sesiwn galw heibio gyda'r Tîm Adnoddau Cymunedol yn Hyb Ystum Taf a Gabalfa i roi gwybodaeth am y cymorth sy'n gysylltiedig â symudedd, fel clinigau rheoli syrthio.
- Bore Coffi gan y Gymdeithas Strôc yn Hyb Llanisien i godi ymwybyddiaeth a thynnu sylw at y cymorth sydd ar gael.

**Gweithgareddau Ffitrwydd**

Mae'r hybiau'n cefnogi'r agenda Byw'n Iach trwy ddarparu lleoliadau i bartneriaid i gynnal amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon mewn lleoliad cymunedol hamddenol. Un digwyddiad o'r fath yw'r dosbarth ffitrwydd 'Pêl-rwyd wrth Gerdded' yn Hyb Llaneirwg, sydd ar gyfer pobl dros 50.



Mae staff yn ein hybiau hefyd wedi'u hyfforddi i gynnal sesiynau Hyfforddiant Swyddogaethol Effaith Isel (LIFT). Cyfres o weithgareddau a gemau llawn hwyl ar gyfer pobl dros 50 oed yw LIFT i wella eu hiechyd a'u llesiant mewn modd diogel a chymdeithasol. Byddwn yn darparu sesiynau ychwanegol yn y dyfodol gyda phwyslais arbennig ar sesiynau blasu sy'n annog cyfranogiad, yn enwedig ar gyfer pobl hŷn.

**Project Fitbit**

Mae'r project Fitbit yn rhaglen aml-asiantaeth iechyd a llesiant ddigidol sy'n gweithio gyda Cymunedau Digidol Cymru ac United Welsh. Wedi'i ddylunio ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed, nod y project yw cael trigolion Caerdydd i symud. Mae'r project yn tynnu sylw at nifer o ymarferion corff, adnoddau ac appiau llesiant y gall cleientiaid eu defnyddio i reoli eu hiechyd eu hunain.

Bydd cyfranogwyr y project yn cychwyn ar raglen 5 wythnos lle byddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp megis teithiau cerdded, helfeydd sborion a sesiynau pêl-droed Gogledd America yn ogystal â gemau iard chwarae clasurol, oll wrth wisgo Fitbits. Yn dilyn cyfnod peilot aeth dau gyfranogwr ymlaen i brynu eu Fitbits eu hunain ac mae un bellach yn manteisio ar grwpiau a gwasanaethau iechyd meddwl lleol yng nghanol Caerdydd. Gan fod y rhestr aros yn llenwi, rydym yn awr yn cynnig cyrsiau ychwanegol.

| BYDDWN YN: |
| --- |
| • Helpu ein cwsmeriaid i ddeall a rheoli eu cyflyrau iechyd yn well, gan gynnwys digwyddiadau ac adnoddau iechyd a llesiant. |

**Iechyd Meddwl**

Mae cefnogi iechyd meddwl da yn un o elfennau allweddol llesiant. Mae Llyfrau Darllen yn Dda ar gyfer Iechyd Meddwl ar Bresgripsiwn bellach ar gael yn ein holl hybiau a llyfrgelloedd, gan ddarparu gwybodaeth a chymorth defnyddiol ar gyfer rheoli cyflyrau iechyd meddwl cyffredin.

**Gwasanaethau Llesiant Cymunedol**

Mae'r Gwasanaeth Llesiant Cymunedol mynediad agored a ddarperir gan United Welsh yn rhoi cyfleoedd i bobl ag anghenion iechyd meddwl lefel isel oresgyn anawsterau sy'n effeithio ar eu llesiant. Nod y gwasanaeth yw helpu pobl i reoli gorbryder a magu hyder wrth wneud cysylltiadau lleol, cymdeithasu a rhannu profiadau.

Mae Hwyluswyr Llesiant Cymunedol yn cynnig cymorth un i un a chyfeirio. Ynghyd â'r cymorth strwythuredig hwn, mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig mynediad i amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli, gweithgareddau therapiwtig neu gymdeithasol a chyrsiau llesiant a gynhelir yn ein hybiau a'n lleoliadau cymunedol.

**Dangosodd ymatebwyr i'n harolwg ddiddordeb arbennig mewn mynychu digwyddiadau a gweithgareddau sy'n ymwneud â therapïau amgen ac ymwybyddiaeth ofalgar. Byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnal digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol.**

**Rhwydwaith Gofalwyr**

Mae'r hybiau hefyd yn hwyluso'r broses o ddatblygu rhwydweithiau gofalwyr, sy'n rhoi cymorth cymheiriaid i'r rhai sy'n gofalu. Darperir cyngor pwrpasol i ofalwyr a gallant fynd i weithgareddau cymdeithasol gyda'r rhai y maent yn gofalu amdanynt mewn amgylchedd diogel a chyfeillgar.

**Dywedodd ymatebwyr i'n harolwg y byddent yn hoffi gweld mwy o grwpiau cymorth i ofalwyr yn ein hybiau.**

| **BYDDWN YN:** |
| --- |
| • Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu grwpiau cymorth, e.e. ar gyfer y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl a Gofalwyr. |

## Gwasanaethau i Bobl Hŷn

Bydd yr hybiau'n cefnogi pobl hŷn gyda'u hanghenion penodol trwy ddarparu cyngor a chymorth pwrpasol.

### Gwasanaeth Byw'n Annibynnol

Trwy'r hybiau, mae Gwasanaeth Byw'n Annibynnol y Cyngor yn darparu amrywiaeth o gymorth i gefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwybodaeth am gymhorthion ac addasu
- Cyngor ar atal cwympo
- Sail rhagnodi cymdeithasol ar gyfer meddygfeydd
- Mynediad i gymorth cynnar i atal anghenion rhag gwaethygu
- Atgyfeirio at gymorth mwy dwys/arbenigol
- Gwasanaethau yn y gymuned a gwybodaeth wedi'i theilwra i'r ardal.

**BYDDWN YN:**

- Gwella'r cyngor Byw'n Annibynnol sydd ar gael trwy'r hybiau.

### Torri Ewinedd

Mae Age Connects Caerdydd a'r Fro yn darparu gwasanaeth torri ewinedd yn Hyb Ystum Taf a Gabalfa, Hyb Llanisien a Hyb Llanrhymni. Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer pobl nad ydynt bellach yn gallu torri eu hewinedd eu hunain neu sy'n ei chael yn anodd cyrraedd eu traed ac mae'r gwaith yn cael ei wneud gan gynorthwywyr torri ewinedd, sy'n cael eu hyfforddi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

### Hyb sy'n Deall Demensia

Rhagfynegir y bydd nifer y bobl 65+ oed â demensia yng Nghaerdydd yn cynyddu 67% rhwng 2015 a 2035. Mae'r Gwasanaeth Iechyd a Llesiant yn cefnogi amcanion ymagwedd y Ddinas sy'n Deall Demensia trwy greu hybiau sy'n deall demensia.

**<u>Creu Hybiau sy'n Deall Demensia:</u>**

- Creu mannau Gwybodaeth am Ddemensia ym mhob hyb ar y cyd â'r Gymdeithas Alzheimer a fydd yn cynnwys adnoddau wedi'u targedu wedi'u hanelu at gefnogi pobl sydd â diagnosis o ddemensia.
- Cynnal sesiynau Cymorth Demensia mewn Hybiau Cymunedol, ar y cyd â phartneriaid iechyd, i roi cyfleoedd anffurfiol i'r rhai mae demensia'n effeithio arnynt a'u gofalwyr fel y gallant gael cymorth ac atgyfeiriadau effeithiol er mwyn galluogi unigolion i "fyw'n dda â demensia".
- Bydd amgylcheddau cefnogol sy'n deall demensia yn cael eu sefydlu ym mhob un o'n hybiau. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y bydd 100% o staff yr Hyb yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o gyfeillion demensia ac y bydd hyn yn cael ei gynnwys mewn sesiynau sefydlu staff a chynlluniau hyfforddi'r gwasanaeth yn flynyddol.
- Caiff caffis demensia eu darparu ym mhob un o'n hybiau, gan ddarparu lle diogel a chefnogol i'r rhai y mae demensia'n effeithio arnynt a'u gofalwyr, i gwrdd a dysgu oddi wrth bobl eraill sydd mewn sefyllfaoedd tebyg, cael gwybodaeth am iechyd, cadw'n brysur a gwneud ffrindiau newydd.

Gellir benthyca llyfrau Darllen yn Dda ar gyfer Demensia am ddim o bob hyb a llyfrgell. Maen nhw'n cynnwys gwybodaeth a chyngor i bobl sy'n byw â demensia a'u gofalwyr, neu unrhyw un sy'n poeni am eu cof.

**Dinasoedd sy'n rhoi Cyfleoedd i'r Henoed**

Mae 'dinasoedd sy'n rhoi cyfleoedd i'r henoed' yn gysyniad a ddatblygwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), sy'n canolbwyntio ar greu amgylcheddau sy'n meithrin dulliau o heneiddio'n iach ac yn heini, gan ei gwneud yn bosibl i bobl barhau i aros yn eu cartrefi, cymryd rhan yn y gweithgareddau y maent yn eu gwerthfawrogi, a chyfrannu at eu cymunedau, am gyhyd â phosibl.

Mae Rhwydwaith Byd-eang yr WHO o Ddinasoedd a Chymunedau sy'n Rhoi Cyfleoedd i'r Henoed yn hyrwyddo cyfnewid profiadau a dysgu cydfuddiannol ledled y byd, er mwyn diwallu anghenion preswylwyr hŷn yn well. Mae'r strategaeth hon yn llwyr gefnogi dyhead Caerdydd i ddod yn ddinas sy'n rhoi cyfleoedd i'r henoed.

| **BYDDWN YN:** |
|---|
| • Hyfforddi pob aelod o staff yr hybiau i fod yn Gyfeillion Demensia, datblygu pob hyb yn Lle sy'n Deall Demensia a darparu sesiynau gwybodaeth a chymorth ynglyn â demensia, yn ogystal â chaffis demensia. |
| • Cefnogi gwaith y Ddinas sy'n Rhoi Cyfleoedd i'r Henoed trwy gynnal gweithgareddau Heneiddio'n Dda a rhaglen gyda mwy o ddigwyddiadau sy'n cefnogi iechyd a lles pobl hŷn. |

## Dysgu Am Oes

Mae dysgu gydol oes yn gallu arwain at gyfleoedd gwell ac ansawdd bywyd gwell ac mae'n gysylltiedig â lefelau uwch o gysylltiad cymdeithasol ac ymgysylltu â'r gymuned.

Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019, cofrestrodd **3,679** o ddysgwyr ar ein cyrsiau Dysgu am Oes.

**O'r ymatebwyr i'n harolwg a oedd â diddordeb mewn Dysgu am Oes, roedd gan hanner ohonynt ddiddordeb mewn cyrsiau coginio, ac roedd diddordeb brwd hefyd i'w weld yn y cyrsiau ffotograffiaeth, gwneud gemwaith a therapi cyflenwol. Bydd canfyddiadau'r arolwg yn llywio ein rhaglen yn y dyfodol.**

Byddwn yn parhau i ddiweddaru cyrsiau gan sicrhau ein bod yn dilyn unrhyw dueddiadau newydd a byddwn yn gwneud cais am gyllid ychwanegol i annog pobl newydd i fynychu sesiynau a chefnogi grwpiau cymunedol.

Bydd mwy o gyrsiau'n cael eu cynnal ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol er mwyn annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y celfyddydau.





**DICE (Cynhwysiant Anabledd mewn Addysg Gymunedol )**

Mae DICE yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau hygyrch i ddysgwyr â phroblemau iechyd meddwl, anawsterau dysgu, nam corfforol ac anafiadau caffaeledig i'r ymennydd.

Mae hyn yn cynnwys nifer o gyrsiau hamdden Dysgu am Oes gan DICE. Mae manteision mynychu cyrsiau hamdden DICE, megis Celf/Crefftau, Crochenwaith, Dawnsio a Drymiau Llaw Affricanaidd, sef:

- Gwell iechyd a llesiant
- Y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd pleserus a chwrdd â phobl newydd
- Cynnydd mewn gallu cymdeithasol, gweithgarwch corfforol a dysgu sgiliau newydd.

| **BYDDWN YN:** |
|---|
| • Darparu cyrsiau cyfannol gyda phartneriaid, megis garddio, coginio, ffotograffiaeth, gemwaith a D.I.Y. |
| • Darparu mwy o gyrsiau ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol i annog plant ac oedolion ifanc i gymryd rhan yn y celfyddydau. |

# Dwyn Cymunedau Ynghyd

## Mynd i'r afael ag Arwahanrwydd Cymdeithasol

Mae ymchwil wedi amlygu y gellir cymharu arwahanrwydd cymdeithasol â risgiau iechyd megis ysmygu ac yfed alcohol o ran lleihau disgwyliad oes.

Mae gweithgareddau i ddod â rhwydweithiau o bobl ynghyd yn cael eu datblygu a'u darparu o fewn yr hybiau a'r llyfrgelloedd. Mae'r rhain yn cynnwys grwpiau cyfeillion a chymdogion, grwpiau canu, gwau a chlonc, sesiynau hel atgofion, caffis, dosbarthiadau celf, boreau coffi a diwrnodau llesiant.

**Gofynnwyd i ymatebwyr i'n harolwg nodi pa fathau o weithgareddau yr hoffent eu gweld yn eu hybiau a'u llyfrgelloedd. Yr atebion mwyaf poblogaidd oedd:**

**Boreau Coffi –** 76%

**Dangos Ffilmiau –** 66%

**Clybiau Cymdeithasol/Sgwrsio –** 54%

**Cwisiau Materion Cyfoes a Chymdeithasol –** 49%

**Clybiau Cinio – 46%**

**Gwau a Chlonc**

"Rwy'n un o sylfaenwyr y grŵp gwau, sy'n cyfarfod yn Llyfrgell Treganna bob dydd Gwener. Mae hwn yn grŵp ffyniannus, cyfeillgar gyda phobl o bob oedran a dyma uchafbwynt fy wythnos. Trwy bleser gwau a chrosio, rydym wedi codi arian ar gyfer gwahanol elusennau ac apêl gan yr heddlu lleol i brynu diffibrilydd sydd wedi'i osod yn Llyfrgell Treganna.

Dwi ddim yn gallu ei fynegi'n iawn i ba raddau mae Llyfrgell Treganna wedi gwneud gwahaniaeth i'm hiechyd a'm lles meddyliol. Byddaf bob amser yn ddiolchgar i'r Cyngor ac i staff ymroddedig y llyfrgell am bopeth sydd gan Lyfrgell Treganna i'w gynnig. Hebddi, byddwn yn teimlo'n ynysig a fyddwn i ddim yn mwynhau'r ymdeimlad o gymuned, cyfeillgarwch a llesiant mae'n ei roi i mi.

Mae'r grŵp yn cynnwys tua ugain o gwsmeriaid rheolaidd o wahanol gefndiroedd sydd â phroblemau iechyd a chymdeithasol amrywiol ac sy'n byw'n agos i Lyfrgell Treganna. Yn dilyn un achos pan aeth un o'r aelodau'n sâl heb fynd i'r Grŵp Gwau a Chlonc am sawl mis, penderfynodd y grŵp i gyfnewid manylion cyswllt. Os na fydd rhywun o'r grŵp yn cyrraedd sesiwn, bydd y grŵp yn cysylltu â'r person sy'n absennol i wneud yn siŵr bod popeth yn iawn ac i weld a oes unrhyw beth y gallant ei wneud i helpu. Mae'r cymorth hwn gan gyfoedion yn gysur mawr i'r aelodau ac yn cael effaith sylweddol o ran arwahanrwydd cymdeithasol a'u llesiant."

Goldies Cymru

Mae Goldies Cymru yn cynnal sesiynau canu a gweithgareddau sy'n agored i bawb.Mae'n dod â phobl hŷn ynghyd i gael hwyl a chymdeithasu.

Lansiwyd sesiynau canu mewn sawl hyb ar draws y ddinas gan gynnwys Treláі a Chaerau, Pen-y-lan a Hyb y Llyfrgell Ganolog, yn ogystal â llyfrgelloedd Rhydypennau a Threganna.

**Dydd Mercher Llesiant**

Mae Hyb Ystum Taf a Gabalfa yn cynnal Sesiynau Llesiant ar ddydd Mercher bob wythnos, gyda gweithgareddau penodol ar gyfer pobl 50+ oed.  Mae'r rhain yn cynnwys clwb garddio a chinio, dosbarth codi pwysau i'r rhai 50+ oed a chlinig strôc. Ceir cynlluniau i gynyddu nifer y gweithgareddau a gynigir yn y





**BYDDWN YN:**

- Parhau i gynnal boreau coffi a chlybiau cinio, wrth gynyddu gweithgareddau cymdeithasol megis clybiau ffilm mewn hybiau.

**Swyddog Cynhwysiant Cymunedol**

Mae Swyddogion Cynhwysiant Cymunedol wedi'u lleoli yn yr hybiau ac yn gweithio gyda phobl leol er mwyn eu cynnwys yn eu cymuned a sicrhau bod ganddynt lais ar yr hyn sy'n digwydd yn eu hardal.

Mae'r swyddogion hyn yn datblygu rhwydweithiau lleol, gan ymestyn i ysgolion, cynlluniau tai gwarchod a lleoliadau cymunedol eraill er mwyn cysylltu pobl â gweithgareddau yn yr hybiau. Maen nhw'n annog rhyngweithio cymdeithasol trwy weithgareddau megis casglu sbwriel cymunedol a datblygu gerddi cymunedol.

Mae Swyddogion Cynhwysiant Cymunedol yn darparu cymorth ymarferol i grwpiau lleol i'w helpu i ddechrau arni, gwneud cais am gyllid a dod o hyd i leoliad, gan roi cyfleoedd i bobl fod yn egnïol a chyfrannu at eu cymunedau.  Ymhlith y grwpiau sydd wedi cael cymorth mae Clwb y Bont yn Hyb Llanisien a chlwb garddio Ffyrc a Thryweli yn Hyb Ystum Taf a Gabalfa.

**Codi Sbwriel**



Cydnabu'r Swyddog Cynhwysiant Cymunedol ar gyfer Gogledd Caerdydd fod sefydlu digwyddiad casglu sbwriel yn gyfle i bobl ymarfer corff, cwrdd â phobl newydd a helpu'r ardal leol. Cysylltodd hi â Cadwch Gymru'n Daclus i gael cymorth i sefydlu'r grŵp o Lyfrgell Radur a bu'n gweithio i hysbysebu hyn yn y gymuned leol ac mewn busnesau ac ysgolion lleol.

Roedd y grŵp yn defnyddio'r llyfrgell fel canolfan i gwrdd a chael seibiannau â lluniaeth. Wedi hynny cafodd aelodau'r grŵp gyfle i gymdeithasu a dysgu am y digwyddiadau, grwpiau a chyfleoedd gwirfoddoli eraill yn yr ardal leol. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol, gan ddod â 45 o bobl ynghyd o bob rhan o'r gymuned.  Bwriedir i hyn barhau'n rheolaidd a'i gyflwyno mewn rhannau eraill o Gaerdydd.

**BYDDWN YN:**

- Parhau i ehangu ein hymgysylltiad â chymunedau lleol, gan ddatblygu rhwydweithiau a chysylltu â gwasanaethau eraill yn y gymuned.

**Ailgylchu Gwisgoedd Ysgol**

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag Uniform'd, sef gwasanaeth ailgylchu gwisgoedd ysgol, i gynnal digwyddiad er mwyn helpu rhieni i gael hyd i wisgoedd fforddiadwy ar gyfer eu plant.

**BYDDWN YN:**

- Cefnogi ailgylchu cymunedol i gynnwys mannau gollwng i ailgylchu gwisgoedd ysgol ar gyfer ysgolion lleol.
- Darparu gwybodaeth a digwyddiadau cymunedol lleol, gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel un sianel i hysbysebu'r hyn sydd ar gael.

## Gwirfoddoli

Mae'r Gwasanaethau Hybiau a Llyfrgelloedd eisoes yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd gwirfoddoli. Gall gwirfoddoli helpu pobl i wneud gwahaniaeth a theimlo'n rhan o'u cymuned. Gall hefyd atal arwahanrwydd cymdeithasol a gwella sgiliau, gan ddod yn llwybr at waith. Bydd gwirfoddoli yn cael ei ddefnyddio i ehangu a chyfoethogi'r arlwy yn yr hybiau a'r llyfrgelloedd ac ni fydd yn cael ei ddefnyddio i

**Dangosodd ein harolwg fod gan lawer o bobl ddiddordeb mewn gwirfoddoli yn eu cymuned**

### **Mathau Mwyaf Poblogaidd o Wirfoddoli –** Pob Oedran

| 46% | 36% | 34% |
|---|---|---|
| Helpu yn fy hyb/ llyfrgell leol | Codi Sbwriel | Bod yn 'gyfaill' i bobl sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol |

### **Y Mathau Mwyaf Poblogaidd o Wirfoddoli –** 16-34 oed

| 53% | 44% | 40% |
|---|---|---|
| Being a ‘buddy’ to socially isolated people | Bod yn wirfoddolwr digwyddiadau | Bod yn ‘gyfaill’ i bobl ifanc |

| **BYDDWN YN:** |
|---|
| • Annog pobl i fod yn Ddinasyddion Gweithredol trwy hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli, a chefnogi ei gilydd trwy ein hybiau a'n llyfrgelloedd. |
| •Datblygu ffyrdd arloesol o wella gwirfoddoli gan wneud y defnydd gorau o sgiliau'r rhai sydd eisiau gwirfoddoli trwy greu gweithgareddau newydd. |
| • Defnyddio partneriaid a gwirfoddolwyr i gyflwyno grwpiau eraill â diddordebau cyffredin, i leddfu teimladau ynysig, gan gynnwys cynnal byrddau Sgwrsio, bod yn gyfaill a datblygu rhwydweithiau cefnogi. |

# Dathlu ein Treftadaeth a'n Diwylliant

Mae gan Gaerdydd draddodiad a hanes diwylliannol cyfoethog. Gall ymchwilio i hanes y ddinas a rhannu profiadau diwylliannol helpu pobl i ddatblygu ymdeimlad o berthyn yn ogystal â dealltwriaeth well o'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Mae digwyddiadau sy'n ceisio ysbrydoli, addysgu a helpu i ddatblygu ymdeimlad o falchder yn nhreftadaeth a diwylliant amrywiol y cymunedau yng Nghaerdydd yn cael eu cynnig ar draws y ddinas ym mhob Hyb a llyfrgell.

Mae'r ddinas yn dod yn fwyfwy amrywiol o ran ethnigrwydd. Mae 20% o boblogaeth Caerdydd yn dod o leiafrif ethnig ac mae dros 100 o ieithoedd yn cael eu siarad yn y ddinas. Mae digwyddiadau sy'n cynnig cipolwg diwylliannol ar gymunedau penodol hefyd yn cael eu cynnig yn ein hybiau a'n llyfrgelloedd.

Wrth ddathlu gorffennol a phresennol Caerdydd, rydym yn dod â dinasyddion o bob cefndir ac oedran at ei gilydd, gan weithio gyda phartneriaid i gefnogi'r gwaith o gyflwyno digwyddiadau rhwng cenedlaethau sy'n dathlu cymunedau lleol ac yn cefnogi dysgu a llesiant cyfranogwyr.

## Llyfrgell Gangen a Threftadaeth Cathays a'i Chasgliad Hanesyddol

Llyfrgell Gangen a Threftadaeth Cathays yw canolbwynt ein casgliad hanesyddol. Darperir llyfrau ac adnoddau sy'n helpu i ddatblygu dealltwriaeth o hanes y ddinas. Mae cymorth ar gael hefyd i ymchwilwyr achyddol lleol i gael hyd i ddeunyddiau a gwybodaeth angenrheidiol.



Mae gan Gaerdydd gasgliad etifeddiaeth o lawysgrifau hanesyddol a llyfrau a gasglwyd ar ddechrau'r 20fed ganrif, cyn sefydlu Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth. Rydym yn falch o'r casgliadau hyn a byddwn yn sicrhau bod perchenogaeth yn parhau yn y ddinas a, lle bo modd, yn golygu eu bod ar gael yn haws drwy ddigideiddio fel y gall y casgliad ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol.

Cyflwynir digwyddiadau treftadaeth a sesiynau hanes ar thema i blant a theuluoedd sy'n canolbwyntio ar gyfnodau allweddol mewn hanes, gan greu ffordd ddifyr a rhyngweithiol i blant brofi a gwerthfawrogi hanes ac ar yr un pryd annog pawb i ddysgu mwy trwy fanteisio ar yr adnoddau sydd ar gael. Rydym yn cadw ac yn mynd ati i brynu casgliad cynhwysfawr o ddeunyddiau cyfredol a hanesyddol sy'n gysylltiedig â Chaerdydd a'r cyffiniau.

## Casgliadau Hynafol, Prin a Chasgladwy

Mae'r Casgliadau Hynafol, Prin a Chasgladwy (HPCh) yn cynnwys eitemau o arwyddocâd llenyddol, artistig neu hanesyddol, a gyhoeddwyd ar ôl 1820, a hefyd gwaith a gynhyrchwyd gan gyhoeddwyr arbenigol, mewn argraffiadau cyfyngedig, setiau o waith cyflawn, a chopïau wedi'u llofnodi. Yn ogystal â bod o werth diwylliannol, mae rhai hefyd o werth ariannol sylweddol oherwydd ansawdd eu cynhyrchu neu eu prinder.

**BYDDWN YN:**

- Ysbrydoli, hysbysu a dod â phobl at ei gilydd drwy ddarparu adnoddau a digwyddiadau cysylltiedig hanesyddol ar draws y ddinas.

## Astudiaeth Achos

Mae'r tîm yn y Llyfrgell Dreftadaeth wedi gweithio'n agos gyda'r gymuned leol ar brosiect sy'n addysgu pobl ifanc am y Rhyfel Byd Cyntaf. Dewiswyd grŵp o blant o Ysgol Gynradd Santes Monica i gymryd rhan yn y prosiect hwn. Y nod oedd ennyn diddordeb y disgyblion yn eu cymdogaeth, gan ddod â'r gorffennol i fyw drwy straeon a phrofiadau go iawn.


Mae Brenda, sydd newydd droi'n 95 oed, wrth ei bodd yn siarad â'r plant, yn rhannu ei straeon, ac yn gwrando ar eu cwestiynau.

Mae'r plant wedi dysgu am hanes lleol trwy wrando ar straeon y bobl hŷn a thrwy astudio'r adnoddau cynradd, megis mapiau a dogfennau gwreiddiol eraill. Maent wedi cael eu hannog i gael profiad ymarferol ac i ofyn cwestiynau, ac maent yn datblygu sgiliau ymchwil a fydd yn eu helpu yn ddiweddarach yn eu bywydau.

Mae Ysgol Santes Monica wedi dweud eu bod wedi gweld y plant yn ymroi'n llwyr i'w dysgu. Mae'r prosiect hwn wedi cael effaith fawr ar y plant ac ar iechyd a lles y dinasyddion hŷn sy'n ymwneud ag ef.

## Y Gymraeg

Mae Caerdydd yn bedwerydd o ran yr awdurdodau lleol sydd â'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, gyda nifer y siaradwyr Cymraeg yn y brifddinas yn dyblu a mwy dros y 25 mlynedd diwethaf. Rydym yn darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog drwy ddarparu amrywiaeth eang o ddeunyddiau i oedolion a phlant drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym hefyd yn anelu at brynu copïau o'r holl deitlau a gyhoeddir yn Gymraeg. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau Cymraeg yn cael eu cynnal yn ein hybiau a'n llyfrgelloedd. Mae hyn yn cynnwys Amser Stori, Stori a Chân, Ti a Fi, grwpiau darllen Cymraeg a digwyddiadau i ddysgwyr Cymraeg.




Yn ddiweddar cynhaliwyd dathliad Dydd Gŵyl Dewi yn **Hyb Tredelerch** ar gyfer pontio'r cenedlaethau. Roedd y plant, ynghyd â'u rhieni, yn gwneud baneri Cymru ac yn addurno lluniau o'r ddraig gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau crefft. Yn ogystal â hyn cafwyd bore pice ar y maen a choffi a ddenodd oedolion o bob oedran, gan gynnig cyfle iddynt ddod ynghyd a chael sgwrs hamddenol.

Roedd y 2 ddigwyddiad yma wedi eu lleoli yn yr un rhan o'r adeilad a oedd yn annog yr oedolion a'r plant i fwynhau'r dathliadau gyda'i gilydd, gan helpu gyda chrefftau a chymysgu. At ei gilydd daeth 27 o bobl i'r digwyddiad: 12 o blant a 15 o oedolion.

## Dathlu treftadaeth ddiwylliannol amrywiol y ddinas

Mae ein Hybiau a'n llyfrgelloedd yn cadw llyfrau mewn amrywiaeth eang o ieithoedd. Byddwn yn parhau i weithio gyda grwpiau a sefydliadau cymunedol lleol i sicrhau bod hybiau a llyfrgelloedd unigol yn darparu llyfrau sy'n berthnasol i'w cymunedau.

Ein nod yw dathlu traddodiadau gwahanol ddiwylliannau a gweithio gyda phartneriaid a chymunedau lleol i gynnig gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol amrywiol yn ein hybiau a'n llyfrgelloedd sy'n ysbrydoli pob dinesydd.

Dechreuodd **Llyfrgell Treganna** Flwyddyn y Mochyn gyda digwyddiad Blwyddyn Newydd Tsieineaidd llawn atyniadau. Roedd y Llyfrgell yn llawn cynnwrf wrth ddisgwyl gweld dechrau 'Dawns y Llew' , gyda'r dawnswyr yn gwibio o amgylch yr adeilad i gyfeiliant offerynnau taro uchel, gan ryngweithio'n chwareus â rhai o'r dwsinau o oedolion a phlant a oedd yn tyrru o gwmpas y Llew gyda'u camerâu'n barod.

Roedd stondinau ar hyd a lled adran y plant ac yn yr ystafell gyfarfod yn rhoi cyfle i roi cynnig ar galigraffeg a gwisgo i fyny mewn gwisgoedd traddodiadol Tsieineaidd. Roedd y perfformiadau'n cynnwys cerddoriaeth, canu a dawnsio, ynghyd ag arddangosiadau *t'ai chi* a *karate*, gyda'r olaf yn sbarduno symudiadau gwych gan bobl ifanc brwd ac ymdrechion dewr gan blant i ddod i roi cynnig arnynt.

Cafwyd llawer o sylwadau hyfryd gan ymwelwyr ac roedd hyn yn ganlyniad i waith gan staff y llyfrgell, a fu'n gweithio gyda Sefydliad Confucius ac aelodau o'r gymuned Tsieineaidd ar y digwyddiad hynod





## 'Mannau Agored' yn croesawu Where I'm Coming From i Hyb y Llyfrgell Ganolog.






Ers 2016 mae *Mannau Agored,* sy'n gyfres o ddigwyddiadau llenyddol, wedi bod yn llwyfan ar gyfer dod ag awduron a chynulleidfaoedd at ei gilydd, ac mae *Where I'm Coming From* yn sesiwn meic agored llafar a lleol sy'n cynnwys yn bennaf, ond nid yn unig, awduron barddoniaeth a rhyddiaith o'r gymuned ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Roedd tîm y digwyddiad llenyddol *Mannau Agored* yn falch iawn o sicrhau presenoldeb *Where I'm Coming From* ar gyfer digwyddiad arbennig ym mis Mawrth 2019 a ddenodd eu cynulleidfa fwyaf hyd yma yn llenwi'r lle digwyddiadau yn Hyb y Llyfrgell Ganolog. Dilynwyd y perfformwyr arbennig Sadia Hameed a Radha Patel gan nifer o ddarllenwyr meic agored a ddaeth gyda'u cerddi eu hunain, darnau o straeon a mwy ger bron torf werthfawrogol.

**BYDDWN YN:**

- Gweithio gyda'n partneriaid a chymunedau lleol i gynyddu nifer y digwyddiadau diwylliannol a denu amrywiaeth eang o bobl.

# Mynediad i bawb

Ein nod yw darparu gwasanaeth hybiau a llyfrgelloedd sy’n groesawgar, yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb.

I ddechrau roedd datblygiad yr Hybiau Cymunedol yn canolbwyntio ar arc deheuol y ddinas, lle mae’r heriau sydd ynghlwm wrth gyni a’r angen am gyngor yn amlycaf. Fodd bynnag, mae'r project both wedi'i ehangu bellach i gynnwys hybiau ar draws gogledd y ddinas sy'n canolbwyntio ar fyw'n annibynnol a llesiant. Mae Hybiau Ieuenctid Arbenigol yn cael eu datblygu hefyd i ddiwallu anghenion aelodau iau ein cymuned.

## Oedran

Rydym yn darparu gwasanaethau i bobl o bob oedran.

### Plant a Phobl Ifanc

Nod y Gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd yw darparu amrywiaeth o weithgarwch ac adnoddau i gynorthwyo plant a phobl ifanc, gan gynnwys gweithgareddau, digwyddiadau a chyfle i ddarllen llyfrau ar gyfer pobl o bob oedran. Datblygwyd arolwg defnyddwyr ar wahân ar gyfer pobl rhwng 8 a 15 oed, fel bod eu safbwyntiau penodol ar y Gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd yn cael eu cofnodi. Mae rhaglen i ddatblygu Hybiau Ieuenctid arbenigol wedi cychwyn gyda Hyb Ieuenctid Butetown ar ei newydd wedd ar fin agor ei ddrysau.

### Pobl Hŷn

Mae llawer o ddefnyddwyr cyfleusterau cymunedol yn bobl hŷn, fel yr adlewyrchwyd yn ein harolwg defnyddwyr lle roedd 35% o'r ymatebwyr dros 55 oed. Mae’r Gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd yn cefnogi pobl hŷn gyda'u hanghenion penodol trwy ddarparu cyngor a chymorth pwrpasol. Bydd y gwasanaeth hefyd yn cynorthwyo hybiau Caerdydd i gael effaith gadarnhaol ar yr agenda Heneiddio’n Dda a chefnogi nodau’r ymagwedd Dinas sy’n Deall Demensia.

Mae gwasanaethau cyngor a chymorth pwrpasol ar gyfer pobl hŷn sy'n cael eu darparu gan hybiau a llyfrgelloedd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Gwybodaeth am iechyd a chyngor ar fyw'n annibynnol
- Grwpiau cymunedol, fel clybiau gwau a chlonc a chlybiau cinio
- Gweithgareddau Pontio’r Cenedlaethau
- Cymorth i ofalwyr gynnal eu llesiant eu hunain trwy ddigwyddiadau a gweithgareddau.


### Oedran Gweithio

Mae'r heriau i bobl oedran gweithio yn cynyddu, gyda'r problemau sy’n codi oherwydd cyni a’r prinder cynyddol o ran tai. Mae ein hybiau’n darparu amrywiaeth o wasanaethau i helpu pobl oedran gweithio, gan gynnwys:

- Cyngor ar dai a budd-daliadau
- Cyngor i mewn i waith
- Cyfleoedd hyfforddi a dysgu i oedolion.

**Anabledd**

O'r cleientiaid hynny a gwblhaodd ein harolwg defnyddwyr, nododd 12% eu bod yn anabl. Pan ofynnwyd am eu cyflwr penodol, dywedodd 91% fod ganddynt salwch neu gyflwr iechyd hirsefydlog.



Ein nod yw darparu amgylchedd sy'n galluogi'r rhai sy'n anabl i gael mynediad i'n holl wasanaethau a chymryd rhan lawn mewn gweithgareddau yn yr hybiau a'r llyfrgelloedd. Rydym yn gwneud hyn trwy gael gwared ar rwystrau mynediad corfforol a darparu amrywiaeth o adnoddau sy'n cynorthwyo ac yn cefnogi'r rhai ag anableddau megis ein toiled Changing Places yn Hyb Ystum Taf a Gabalfa.

Mae’r rhan fwyaf o ofod ein hybiau ar un llawr heb unrhyw risiau mewnol ond gyda rampiau a throthwyon gwastad i bob drws. Mae lle parcio hygyrch ar gael hefyd, ac mae'r holl arwyddion yn cydymffurfio â'r canllaw dylunio arwyddion ac egwyddorion deall demensia, a hynny mewn braille hefyd. Mae cynlluniau lliw yn ein Hybiau wedi cael eu hystyried yn ofalus er mwyn sicrhau gwrthgyferbyniad digonol i'r rheini â nam ar eu golwg.

Rydym yn darparu amrywiaeth o adnoddau ar gyfer y rhai sydd â nam ar y clyw neu nam ar y golwg, gan gynnwys llyfrau llafar, llyfrau siarad a llyfrau mewn print bras, ac maent yn gweithio'n agos gyda Sefydliad y Deillion Caerdydd i gefnogi pobl sydd â nam ar eu golwg.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio i wneud Gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn gwbl hygyrch i'r rheini y mae dyslecsia'n effeithio arnynt. Caiff adnoddau eu darparu gan gynnwys e-Lyfrau, pennau darllen, troshaenau tudalennau, a phrennau darllen.

Rydym yn ymwybodol o'r heriau a achosir gan faterion iechyd meddwl. Rydym yn cynnig amrywiaeth o lyfrau ac adnoddau hunangymorth, gan gynnwys Darllen yn Dda ar gyfer Llyfrau Iechyd Meddwl ar bresgripsiwn, sy'n rhoi gwybodaeth a chymorth i reoli cyflyrau cyffredin. Wrth symud ymlaen, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu grwpiau cymorth iechyd meddwl gwell yn ein hybiau.

Dangosodd ymatebwyr i'n harolwg ddiddordeb arbennig mewn mynychu digwyddiadau a gweithgareddau sy'n ymwneud â therapïau amgen ac ymwybyddiaeth ofalgar. Bydd y posibilrwydd o ehangu'r ddarpariaeth hon yn cael ei ystyried.

Mae ein hybiau’n cynnig amgylcheddau cefnogol i'r rhai sy'n byw â demensia a'u gofalwyr, gyda staff wedi'u hyfforddi mewn ymwybyddiaeth o ddemensia. Mae mannau gwybodaeth am ddemensia wedi cael eu creu mewn cydweithrediad â'r Gymdeithas Alzheimer, tra bod sesiynau cefnogi demensia anffurfiol yn cael eu cynnal gyda phartneriaid iechyd. Mae caffis demensia rheolaidd yn cynnig lle i gael gwybodaeth, cadw'n brysur a gwneud ffrindiau newydd. Gellir benthyca llyfrau Darllen yn Dda ar gyfer Demensia am ddim o bob Hyb a llyfrgell.

**Llyfrgell Deithiol**

Mae'r llyfrgell deithiol yn mynd â gwasanaeth llawn i gymuned Caerdydd trwy ymweld ag ardaloedd nad oes ganddynt fynediad hawdd i lyfrgell leol a lle mae nifer uchel o bobl oedrannus neu fregus a fyddai, fel arall, yn ei chael hi'n anodd cyrraedd eu cangen agosaf.

## Gwasanaethau Llyfrgell i Bobl sy'n Gaeth i'r Tŷ

Rydym hefyd yn cynnal gwasanaeth am ddim sy'n dod â'r llyfrgell yn syth at stepen drws y rhai sy'n analluog oherwydd salwch, llesgedd neu anabledd ac nad ydynt bellach yn gallu teithio i'w llyfrgell leol.

Mae'r gwasanaeth yn galw bob tair wythnos i ddosbarthu a chasglu llyfrau cyffredin/print mawr a/neu lyfrau ar dâp.

## DICE (Cynhwysiant Anabledd mewn Addysg Gymunedol)

Mae DICE yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau hygyrch i ddysgwyr â phroblemau iechyd meddwl, anawsterau dysgu, nam corfforol a/neu anafiadau caffaeledig i'r ymennydd.

## Ethnigrwydd

Mae 20% o boblogaeth Caerdydd yn dod o leiafrif ethnig ac mae dros 100 o ieithoedd yn cael eu siarad yn y ddinas. Mae Caerdydd yn debygol o ddod yn fwyfwy amrywiol o ran ethnigrwydd, gan ei gwneud yn ofynnol i ganolbwyntio'n barhaus ar gydlyniad cymunedol, gan sicrhau bod gwasanaethau'n ymateb i anghenion cymunedau lleol.

Rydym yn cynnal gweithgareddau a digwyddiadau'n rheolaidd i ddathlu diwylliant a hanes ein cymunedau amrywiol. Mae llawer o staff ein hybiau'n amlieithog sy'n galluogi cwsmeriaid i fanteisio ar wasanaethau yn eu hieithoedd eu hunain.

## Darpariaeth Iaith Gymunedol

Nod y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Ieithoedd Cymunedol yw annog a gwella darllen mewn dewis eang o ieithoedd. Mae'r gwasanaeth yn darparu llyfrau, gwybodaeth, papurau newydd a chylchgronau sy'n cefnogi anghenion hamdden, iechyd, addysgol, llenyddol a diwylliannol y gwahanol gymunedau yng Nghaerdydd.  Mae llyfrau ar amrywiaeth eang o bynciau megis nofelau, barddoniaeth, coginio, iechyd, dysgu Saesneg, gyrru, dinasyddiaeth a llawer mwy.  Yn ogystal, trefnir digwyddiadau ar thema i gynnwys y gymuned leol ac ymgysylltu â hi.

Mae dros 11,000 o lyfrau yn y casgliad mewn 24 o ieithoedd ac mae'r rhain ar gael mewn hybiau a llyfrgelloedd penodol/

## Crefydd a Chred

Mae nifer y bobl sy'n nodi eu bod yn Gristnogion yng Nghaerdydd wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r prif grwpiau crefyddol eraill a'r rhai sy'n nodi dim crefydd wedi cynyddu. Mae ein gwasanaethau'n ystyried amrywiol anghenion crefyddol ein cymunedau. Rydym yn sicrhau nad yw digwyddiadau'n cael eu cynnal ar 'Ddiwrnodau Sanctaidd' penodol er mwyn cefnogi cynhwysiant ehangach.

## Y Gymraeg

Mae Caerdydd yn bedwerydd o ran yr awdurdodau lleol sydd â'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, gyda nifer y siaradwyr Cymraeg yn y brifddinas yn dyblu a mwy dros y 25 mlynedd diwethaf. O'r cleientiaid hynny a gwblhaodd ein harolwg defnyddwyr, roedd ychydig o dan hanner yn meddu ar ryw lefel o sgiliau iaith Gymraeg.

Ar hyn o bryd rydym yn cadw bron 23,000 o deitlau yn y Gymraeg ac yn darparu copi o bob teitl llyfr newydd a gyhoeddir yn Gymraeg. Rydym hefyd yn darparu sesiynau Amser Stori a Rhigwm i blant ac amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau ar gyfer y rhai sy'n siarad neu'n dysgu'r Gymraeg.

Darperir hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i bob aelod newydd o staff yr hybiau, er mwyn sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn unol â'u hanghenion unigol, ni waeth pa iaith y maent yn ei siarad, boed yn Gymraeg neu'n Saesneg.

# Cyd-destun Strategol a Gofynion Rheoliadol

Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth, y cynlluniau a'r strategaethau canlynol ac yn ymateb iddynt.

## Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964


O dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964, mae'n ofynnol i awdurdodau llyfrgell "**darparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sydd am wneud defnydd ohono**".

Mae dyletswyddau eraill a nodir yn y ddeddf yn cynnwys:

- Darparu llyfrau a deunyddiau eraill y mae eu hangen i sicrhau bod gwasanaeth cynhwysfawr ac effeithlon yn cael ei ddarparu.

- Sicrhau bod y dulliau ar waith i ganiatáu benthyca neu ddefnyddio deunydd cyfeiriadol i fodloni gofynion defnyddwyr.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015




Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob ardal awdurdod lleol gynnal asesiad o lesiant, er mwyn llywio cynllun llesiant lleol.

## Cynllun Llesiant Caerdydd 2018-2023




Mae cynllun Caerdydd yn nodi'r Amcanion Llesiant canlynol ar gyfer Caerdydd:

1 - Prifddinas sy'n gweithio i Gymru.

2 - Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn

3 -  Cymunedau diogel, hyderus a grymus

4 - Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu

5 - Cefnogi pobl allan o dlodi

6 - Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn

7 - Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus

## Cynllun Corfforaethol Caerdydd 2019-22




'Uchelgais Prifddinas' yw rhaglen bolisi gyfredol y Cyngor, sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau gweithio dros Gaerdydd, gweithio dros Gymru, gweithio i'r dyfodol a gweithio dros wasanaethau cyhoeddus. Mae 'Cyflawni Uchelgais Prifddinas', Cynllun Corfforaethol Caerdydd 2019-22, yn mabwysiadu'r un saith amcan llesiant â Chynllun Llesiant Caerdydd.

## Strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant 2018




Mae Strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant yn gosod y weledigaeth bod hawliau plant yn cael eu parchu a bod pob plentyn a pherson ifanc yn ddiogel, yn hapus ac yn iach ac yn gallu rhannu yn llwyddiant y ddinas. Mae'n nodi amcanion a chamau gweithredu clir y bydd y cyngor a phartneriaid yn eu cyflawni gyda'i gilydd, gyda phwyslais penodol ar ein plant a'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed.

## Y Camau Nesaf

Bydd yr amcanion "Byddwn yn" a geir trwy gydol y strategaeth hon yn sail i gynllun gweithredu pum mlynedd. Bydd y cynllun gweithredu'n rhoi manylion y gweithgareddau allweddol i'w cynnal ac yn nodi amcanion clir, ynghyd â swyddogion a/neu sefydliadau â chyfrifoldeb arweiniol. Caiff y broses o'u rhoi ar waith ei monitro'n ofalus a chaiff y cynllun gweithredu ei adolygu a'i ddiweddaru yn ôl yr angen. Ni all y Cyngor weithredu'r strategaeth ar ei ben ei hun a bydd gwaith partneriaeth yn hanfodol i sicrhau'r canlyniadau a'r atebion gorau.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**